

ECO'R WYDDFA

**NOSON DATHLU 200fed RHIFYN
18fed PEN-BLWYDD ECO'R WYDDFA
NOS FERCHER, 18 MAI 1994**

7 p.m. ar gyfer 7.30 p.m.

ym MHENCADLYS Euro-DPC, LLANBERIS

Diolch i bawb a ymatebodd i'r ddwy hysbyseb a'r gwahoddiadau ar gyfer cyfarfod y dathlu. Mae'n argoeli am noson dda.

**MAE'R RHESTR BELLACH WEDI CAU AC NI ELLIR CANIATÁU MYNEDIAD
I NEB ARALL — RHAG TORRI RHEOLAU TÂN.**

Methwyd a chysylltu â phob gweithiwr a chyn-weithiwr ac ymddiheuir am hynny. Gobeithio eich bod wedi ymateb i'r ddwy hysbyseb yn y papur. Derbyniwyd nawdd ychwanegol gan GYNGOR CYMUNED LLANBERIS. Cyhoeddir rhestr gyflawn o'r noddwyr yn rhifyn mis Mehefin.

Rhif 201

MAI 1994

Pris 25c.

DEINIOLLEN BIA'R CWPAN IAU



CANTORION ELIDIR

Unwaith eto mae cynnwrf ymysg aelodau Cantorion Elidir. Yn dilyn eu perfformiad llwyddiannus o'r 'Croeshoeliad' yng Nghapel Engedi Caernarfon y llynedd mae cynlluniau ar droed i berfformio drama gerdd gan Roger Jones 'O Gaethiwed i Ryddid' sy'n adrodd hanes yr Israeliaid yn ffoi o'u caethiwed yn yr Aifft.

Mynegodd Mr Robin Jones, y cyfarwyddwr, ei frwdfrydedd wrth drafod y cynhyrchiad. 'Mae'n fraint cael gweithio gyda chymaint o bobl ifanc dawnsus yr ardal,' meddai. 'Yn 1988 fe gyfarwyddais y ddrama gerdd 'Mwy Nag Aur' a oedd yn cynnwys tua 100 o bobl ifanc y fro. Y llynedd fe ddaeth Cantorion Elidir a Chôr Bro Dyfnan, Ynys Môn, at ei gilydd i berfformio y 'Croeshoeliad'. Roedd gweld Capel Engedi yn orlawn ar gyfer y perfformiad yn brofiad bythgofiadwy. 'Rwy'n teimlo bod y cynhyrchiad diweddaraf yn ddilyniant naturiol i'r cynhyrchiadau blaenorol.'

(parhad ar dudalen 18)



Lyndsey Vaughan Parry a Nia Land a fydd yn cymryd rhan yn y ddrama gerdd.

TÂN YN YR ANTUR

Trist oedd clywed y newyddion fore Mawrth, Ebrill 26, am y tân a wnaeth ddifrod i adeilad a nwyddau Antur Waunfawr. Mwy trist fyth oedd deall bod y tân hwnnw, yn ôl pob tebyg, wedi ei gynnu yn fwriadol. Dymunwn yn dda i'r gweithwyr a phawb sy'n gysylltiedig â'r Antur.

RAS ELIDIR

Rhoddwyd cryn sylw yn ein colofnau yn ddiweddar i gampau nifer o'n hieuenctid ym myd athletau. Fel arfer byddwn yn eu canmol am ennill gwahanol deitlau neu dlysau. Y tro yma rydym yn falch o gael nodi cyfraniad yr ieuenctid yma er lles eraill. mae yna fwriad i redeg ras milltir — ond ar gwrs unigryw, sef y tu mewn i grombil Elidir. Dyma un o'r llu gweithgareddau sydd wedi eu trefnu i nodi bod deng mlynedd ers agor y cynllun trydan dŵr enfawr. Bydd y rhedwyr yn cael eu noddi er lle apêl Macmillan ar gyfer Ymchwil Cancr.

Rhaid pwysleisio mai ras hwyl yw hon a gynhelri ar hyd y twneli mewnol. Mae gwahoddiad agored i redwyr — y nifer mwyaf o redwyr yna y mwyaf o arian fydd yng nghoffrau yr achos teilwng hwn.

Gellir cael ffurflenni yn lleol yn Siop Joe Brown neu yn Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, neu trwy gysylltu â Dr Alistair Rogers yng ngwaith Dinorwig ar (0286) 870166.

ECO'R WYDDFA

Rhif 201
MAI 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(0248) 670115

DYDDIADUR Y MIs

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (674669)

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

Gareth Williams, Angorfa,
Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)

Tony Storey, Awel y Mynydd,
Ceunant, Llanrug (650600)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn,
Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)

Ann Gibbins, Llodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(0248 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG:

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAI 16
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MEHEFIN	MAI 26	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 30	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 8	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

Llythyrau

DIOLCH AM YR 'ECO'

Annwyl Olygyddion,

Fel un o'r 'Cymry ar Wasgar', ac wedi mwynhau yr adroddiadau yn Eco'r Wyddfa, cymeraf y cyfle i ddiolch i chi ac i'r gohebwyrr lleol am eu gwaith difesur i wneud y rhifynnau'n bosibl.

Mae'r Eco i mi a'm tebyg, sy' â chysylltiadau ag ardaloedd Arfon yn bwysig iawn i wneud hyn yn bosibl.

Edrychaf ymlaen i Eco'r Wyddfa 1994 ac i ddal i dderbyn y newyddion lleol.

Diolch yn fawr,
STANLEY GRIFFITH
71 Bramham Drive
Harrogate
Gogledd Efrog
(Cwm-y-glo gynt)

'X' IDDYNN' NHW

Annwyl Olygydd,

Yr oeddynt yn wrth-Gymraeg: 'Saesneg yw iaith Prydain Fawr, ac y mae Cymru'n rhan o Brydain'.

Yr oeddynt yn sarhau tuag at bobl Cymru: 'Rydym yn gwmni Saesneg ... byddai unrhyw ddatblygiadau tuag at ddwyieithrwydd yng Nghymru yn costio'n ddrud i'r mwyafrif o'n cwsmeriaid yn Lloegr.'

OND YN AWR: 'Mae'r Gymdeithas (HalifaX) yn cydnabod y Gymraeg fel iaith gynhenid, ac felly, yn aenlu at gryfhau ei gwasanaeth drwy'r Gymraeg'.

Bydd Cymdeithas Adeiladu'r Halifax yn cyflwyno gwersi Gymraeg i'w staff, cynllun gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, hysbysebu swyddi'n ddwyieithog, llenyddiaeth, arwyddion mewnol, papur swyddogol a llyfrau sieciau i gyd yn ddwyieithog.

Misoedd o ymgyrchu caled gan aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg a enillodd y frwydr hon. Ond ni fyddem wedi'i hennill heb gefnogaeth gadarn llawer o bobl eraill gan gynnwys y cyhoedd ar ein strydoedd (yn Gymry Cymraeg eu hiaith a'r di-Gymraeg), mudiadau eraill, sawl Aelod Seneddol — ac ambell i Arglwydd! Hoffwn ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd i fuddugoliaeth yr ymgyrch hon.

Pa gymdeithas adeiladu a wêl y goleuni nesaf tybed?

Yn gywir,
GARETH KIFF
Cadeirydd Cell Caerdydd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Grŵp Dyneiddiol Lleol

Annwyl Olygydd,

Mae nifer o Gymry Cymraeg digrefydd yn y cyffiniau â diddordeb ganddynt mewn materion moesol a chymdeithasol yn ystyried dod at ei gilydd i ffurfio grŵp dyneiddiol lleol.

Erbyn hyn mae dyneiddiaeth (moesau heb grefydd) yn cyflym ennill tir mewn nifer o wledydd drwy'r byd. Yn Norwy, er enghraifft, mae rhwng dwy fil a thair mil o aelodau newydd bob blwyddyn wedi bod yn ymuno â'r Gymdeithas Dyneiddiol ers diwedd y saithdegau. Mae 80 o fudiadau mewn 32 o wahanol wledydd yn perthyn i'r Undeb Dyneiddiol a Moesegol Rhyngwladol.

Yma yng Nghymru mae nifer o grwpiau eisoes wedi'u ffurfio, a mis Tachwedd y llynedd daeth cynrychiolwyr o'r grwpiau hyn at ei gilydd i sefydlu Cyngor Dyneiddwyr Cymru. Mae Canolfan Astudiaethau Addysg Prifysgol Cymru Aberystwyth ar hyn o bryd yn paratoi gwerslyfryn Cymraeg ar ddyneiddiaeth ar gyfer ysgolion uwchradd.

Gofynnir i unrhyw un â diddordeb ganddo yn y grŵp newydd anfon amlen stampiedig ataf yn y cyfeiriad isod neu ffonio Caernarfon (0286) 673488 am fwy o fanylion.

Yn gywir iawn,
ZONIA M. BOWEN
6 Stad Glandŵr
Caeathro
Caernarfon

Ymchwil i Hanes Ysgol Brynrefail

Yn rhifyn Mawrth o'r Eco cyhoeddwyd llythyr gan Mr Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen, yn sôn am ymchwil arbennig sydd yn cael ei wneud gan ddau ysgolhaig o Fangor i hanes Ysgol Brynrefail yn y cyfnod 1919-1939. Bellach derbyniodd yr Eco fwy o wybodaeth am y gwaith gan y Dr H. G. Williams a T. M. Basett:

Mae'r ddau ohonom yn bwriadu gwneud archwiliad manwl o hanes y disgyblion a fu yn Ysgol Sir Brynrefail rhwng 1918 a 1939. Hyd y gwyddom, ni wnaethpwyd astudiaeth tebyg o unrhyw ysgol yng Nghymru ond os gallwn ddod i ben â'r gwaith bydd yn gyfraniad i hanes yr ysgol ac i hanes yr hen ysgolion sir yng Nghymru. Ni bydd casglu'r wybodaeth yn hawdd; mae'n dibynnu ar gydwethrediad eang gan y cyn-ddisgyblion eu hunain, eu teuluoedd a'u ffrindiau. Apêl am gydwethrediad yw'r llythyr hon. yr ydym wedi paratoi holiadur a gellir ei gael o un o'r cyfeiriadau isod. Byddem hefyd yn ddiolchgar iawn i unrhyw un a fyddai'n azyddus i gymeryd rhan yn

CYTHREL CANU

Annwyl Olygydd,

Fe hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at ddigwyddiad mawr yng Ngŵyl Werin y Cnapan ym mis Gorffennaf eleni. Fel rhan o ddathliadau pen-blwydd y Cnapan, sy'n ddeg oed eleni, rydym yn trefnu cystadleuaeth Y Cythrel Canu.

Rydym yn cynnig gwobr o £1,500 am y set chwarter awr fuddugol, fydd yn cynnwys un gân werin gyfoes Gymraeg, un gân werin draddodiadol a darn offerynnol traddodiadol Cymreig. Yma mae cân werin gyfoes yn golygu cân sydd wedi ei chyfansoddi neu gyfaddasu o iaith arall yn arbennig ar gyfer Y Cythrel Canu.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i grwpiau newydd, sydd ddim wedi recordio hyd yn hyn. Fodd bynnag, fe ganiateir hyd at ddau gerddor sy'n aelodau o grŵp sefydliedig eisoes.

Fe fydd y cystadleuwyr yn anfon casét enghreifftiol o'u set caneuon i'r cyfeiriad isod erbyn **Mai 27, 1994**. O'r tapiau hyn fe fydd y grwpiau sy'n cael llwyfan yn Y Cythrel Canu ar nos Iau, Gorffennaf 7, 1994, yng Ngŵyl Werin y Cnapan, yn cael eu dethol gan banel o dri beirniad.

Am fanylion pellach a ffurflen gystadlu ffoniwch **054 555 629** neu ysgrifennwch yn syth at: **Y Cythrel Canu, Sycharth, Talgarreg, Llandysul, Dyfed SA44 4EP.**

Yn gywir,
ROBYN TOMOS

yr ymchwil drwy wirfoddoli i rannu'r holiadur yn eu cymunedau; gallech hefyd ofalu ei lenwi dros aelodau o'r teulu a ffrindiau. I daro nodyn trist mae'n bwysig hefyd i gael gwybodaeth am gyfeillion sydd wedi ymadael. Os gwyddoch am gyfeillion sydd wedi ymadael a'r cylch byddem yn barod iawn i yrru holiaduron iddynt drwy'r post — dim ond cael cyfeiriadau. I ailadrodd mae llwyddiant y gwaith yn dibynnu ar eich cydwethrediad chi a dyma ni'n ddigon hyderus ymlaen llaw i ddiolch amdano. Hwyrach y dylid ychwanegu, rhag i neb ofni llenwi'r holiadur, nad yw'n gofyn am unrhyw wybodaeth gyfrinachol.

Bydd ffrwyth yr ymchwil yma o ddiddordeb arbennig i drigolion y fro ac fe'ch anogir i gysylltu â'r **Dr Williams, Ysgol Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol Prifysgol Cymru, Bangor. Ffôn: (0248) 38223 neu 382215** i dderbyn copi o'r holiadur. Gellwch hefyd gysylltu â **Mr Robert Williams, ffôn: (0286) 872571.**

CWTOGI GRANTIAU MYFYRWYR

Yng nghyfarfod Pwyllgor Addysg Cyngor Sir Gwynedd, ddydd Iau, 24 Mawrth 1994, beirniadwyd penderfyniad y Llywodraeth ganolog i gwtogi lefel grantiau mandadol i fyfyrwyr 10% y flwyddyn tros y tair blynedd nesaf.

Ar hyn o bryd mae'r uchafswm grant i fyfyrwyr mewn prifysgol y tu allan i Lundain yn £2265 y flwyddyn. Mae'r swm yma wedi ei rewi ers 1990 pryd y cyflwynodd y Llywodraeth eu cynllun i gynnig benthyciadau i fyfyrwyr yn hytrach na chodi lefel y grantiau gyda lefel chwyddiant. **O fis Medi 1994 ymlaen bydd uchafswm y grant yn gostwng i £2040 y flwyddyn** gyda chodiad yn y swm y gellir ei fenthycu gan fyfyrwyr. **Erbyn Medi 1996 bydd mor isel ac oddeutu £1650 y flwyddyn.**

Bwriad y Llywodraeth yw tocio'r grant a chodi'r swm y gellir ei fenthycu fel y bydd y ddau yn gyfartal. Golyga hyn y bydd myfyrwyr sy'n cychwyn cwrs gradd ym Medi 1994 ac ar grant llawn, yn derbyn uchafswm o £5525 dros y tair blynedd yn hytrach na'r £6795 a delir ar hyn o bryd. Yn yr un modd i gadw yn yr unfan (heb ystyried unrhyw chwyddiant tros y ddwy flynedd nesaf) bydd yn rhaid i fyfyrwyr **fenthycu £3750** dros y cwrs yn hytrach na'r £2185 sydd ei angen ar hyn o bryd.

Mae'r Pwyllgor Addysg eisoes wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gymreig i gwyno am y mater yma ond yn ei atebiad dywedodd Syr Wyn Roberts, y Gweinidog Gwladol sydd â chyfrifoldeb am addysg ac sydd hefyd yn Aelod Seneddol dros Etholaeth Conwy, ei fod yn ystyried **'y pecyn hwn fel newyddion da i fyfyrwyr — yn arbennig wrth ei ystyried yn erbyn y cefndir o gylch gwariant cyhoeddus.'**

'Roedd aelodau'r Pwyllgor Addysg yn feirniadol iawn o'r newid yma yn y gyfundrefn grantiau ac yn poeni yn ofnadwy y gallasai llawer o fyfyrwyr o Wynedd fethu a mynd ymlaen i addysg uwch. Adroddwyd fod tystiolaeth eisoes yn bodoli fod rhai myfyrwyr wedi gorfod gadael cyrsiau ers cychwyn y gyfundrefn benthyciadau newydd yn 1990 a chyda mwy o bwyslais ar fenthyciadau yn y dyfodol bydd y nifer yma yn sicr o godi.

Dywedodd y Cynghorydd Handel Morgan, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg ei fod o'r farn **'fod y newid polisi yma yn un hollol anfoesol ac yn gwneud dim byd i gynorthwyo llawer iawn o ieuenctid Gwynedd fynd ymlaen i dderbyn addysg uwch. Dros flynyddoedd lawer 'roedd y gyfundrefn bresennol wedi galluogi miloedd ar filoedd o fyfyrwyr o bob cefndir ariannol i fynd ymlaen i brifysgolion, colegau politechneg a sefydliadau addysg uwch. Gyda'r newidiadau yma mae posibilrwydd cryf na all rhai myfyrwyr galluog a dawnus ddarganfod yr arian i fynd ymlaen i goleg yn y dyfodol.'**

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

COFIO'R CAU

Ar nos Wener, 8fed Gorffennaf, yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, y bwriedir cynnal Cyfarfod Cyhoeddus i gofio achlysur cau Chwarel Dinorwig chwarter canrif yn ôl — ym mis Gorffennaf 1969. Ar y noson ceir anechiadau gan Mr Dafydd Wigley, A.S.; Dr Merfyn Jones, Coleg y Brigysgol Bangor; Mr Tom Jones, Swyddog Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol. Cadeirydd y cyfarfod fydd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis. Yn ystod y noson ceir eitem gerddorol a dangosir dwy ffilm, 'Y Chwarelwr' a 'Ffarwel Roc'. Trefnir y noson gan Antur Padarn.

Yna, ar ddydd Sadwrn a Sul, Gorffennaf 9fed a'r 10fed cynhelir aduniad i gyn-chwarlewyr a'u teuluoedd yn y Gilfach Ddu. Staff Amgueddfa'r Gogledd ac Adran Ddiwylliant a Hamdden Cyngor Sir Gwynedd, fydd yng ngofal y trefniadau hyn. Y bwriad yw trefnu cyfweiliadau a chofnodi atgofion y chwarelwyr o'u cyfnod gwaith yn y chwarel. Gobeithir hefyd ddod i wybod am hynt a helynt y chwarelwyr ar ôl iddynt adael y Chwarel yn 1969 — lle aethant i weithio wedi hynny, a sawl un a aeth allan o'r ardal i chwilio am waith.

Bydd manylion llawn am y Cyfarfod Cyhoeddus a'r Aduniad yn cael eu cynnwys yn y rhifyn nesaf o'r Eco.



Côr Ysgol Bethel gyda'u hyfforddwraig, Miss Lowri Prys Roberts — gweler y stori ar y dudalen flaen.

CLWB ERYRI

Yng nghyfarfod ffurfiol ola'r tymor ar nos Iau, Ebrill 4, yng Ngwesty Erw Fair, Llanberis, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Geraint Elis, Bethel (mab Perisfab a fu yn un o aelodau mwyaf blaenllaw y Clwb ddydd a fu) ar ardal Nant Peris ei blentyndod. Plethwyd aml i stori hwyliog am gymeriadau a digwyddiadau'r gorffennol i'w sylwadau, a thrist oedd meddwl mai rhan o 'hen bethau diflanedig teulu dyn' oedd y cyfryw bellach. Cadeiriwyd y noson gan Brython Jones, Caernarfon, a thalwyd y diolchiadau gan J. Norman Davies, Bontnewydd.

Yn ei sylwadau cyffredinol cyfeiriodd y Llywydd, Eurwyn Jones, Llanberis, at gamp J. Norman Davies yn ennill Cadair Eisteddfod Bontnewydd; ac Angharad, merch Emyr Price, Bethel, yn ennill Gwobr Goffa Saunders Lewis. Mynegodd hefyd ei obaith y byddai cynrychiolaeth dda o'r aelodaeth ar y trip blynyddol ar ddydd Sadwrn, Mehefin 19. Wrth gloi, diolchodd i bawb a gyfrannodd tuag at wneud ei flwyddyn fel Llywydd y Clwb yn un lewyrchus a didramgydd ei naws, a dymunodd yr un rhwydd hynt i'w olynydd, Evan Parry, Ceunant, yn y tymor i ddod.

FFEDERASIWN GWYNEDD / CAERNARFON SEFYDLIAD Y MERCHED

GWEITHDY BLASU

gan Goleg Technegol Bangor
yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon
dydd Sadwrn, Mai 14, 1994

10.30 a.m. — 3.30 p.m.

Gellir cael blas ar y pynciau canlynol:

★ CYMRAEG FEL AIL IAITH ★

★ SBAENEG NEU FFRANGEG (sgwrsio) ★

★ CELFYDDYD A CHREFFT ★

★ SGILIAU YMDDANGOSIAD gan gynnwys Siarad Cyhoeddus ★

Cyfle da i gael tipyn o hwyl yn ogystal â chyfle i ddysgu a datblygu diddordeb newydd. Croeso i ffrindiau sydd ddim yn aelodau.

Mynediad £3.50

(lluniaeth yn ychwanegol — neu dowch â'ch cinio gyda chwi.)

Llwyddiant Hyfforddi i Ferched Lleol

Mae un ar ddeg o ferched o Ogledd-orllewin Cymru wedi cyflawni Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Lefel 4 mewn Rheolaeth yn llwyddiannus, ac fe'i cyflwynwyd â thystysgrifau gan Diane Hughes, cyn enillydd y Wobr Merched mewn Menter. Darparwyd y cwrs gan Ganolfan Hyfforddi Hill Management Criteria ym Mhorthaethwy gyda chymorth TARGED a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd.

Esboniodd Anna Chambley, Rheolwr Cyffredinol Hill Management Criteria: 'Rydym yn arbenigo mewn rhaglenni hyblyg sy'n adnabod potensial unigolion ac yn adeiladu ar eu cryfderau i'w helpu i gyflawni eu nodau.'

Mae'r rhan fwyaf o'r merched wedi treulio amser oddi wrth yr amgylchedd gwaith cyn dechrau'r cwrs fel yr esboniodd Ruth Parry, un o'r myfyrwyr, sydd yn awr yn cael ei chyflogi gan TARGED: 'Mae treulio amser oddi wrth waith yn tueddu i erydu eich hyder ac mae sgiliau'n cael eu anghofio. Mae'r cwrs hwn wedi ei gynllunio i arenw'r sgiliau sy'n ofynnol i ddatblygu sgiliau sy'n bodoli eisoes. Mae'r sesiynau hyfforddi dwys yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rheoli, cyd-drafod, trefnu, cynllunio a chyfathrebu. Mae'r cwrs wedi ei strwythuro yn helaeth iawn i ffitio bywyd teuluol ac mae yna lawer iawn o gymorth ar gael.'

Mae myfyrwraig lwyddiannus arall, Heledd Williams, yn awr yn cael ei chyflogi gan Ganolfan Newydd-debau Busnes Eryri hefyd yn clodfodi'r cwrs: 'Roedd yr amrediad o sgiliau rheoli a gynhwyswyd yn eang a chynhwysfawr. Ymdriniwyd ag unrhyw broblemau y daethwyd ar eu traws yn ystod y cwrs yn gyflym ac efeithiol. Rhoddodd Anna Chambley, un o'n tiwtoriaid, gymorth ardderchog i ni gan sicrhau o'r cychwyn cyntaf fod y gwaith cwrs o'r ansawdd uchaf.'

Mae cwrs rheoli pellach wedi ei drefnu ar gyfer y dyfodol. Am ragor o fanylion cysylltwg ag Anna Chambley ar (0248) 716614 neu TARGED ar (0248) 671444.



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

O SIAMBAR SELWYN

Fe'i ganed Mehefin 13eg, 1862, mewn tŷ o'r enw Talywwern Fach, Penegoes ger Machynlleth, a symudodd yn gynnar yn ei oes i Lechwedd Du, Dylife, ac yno yn yr ysgol eglwysig yr addysgwyd ef. Tua 1877 cychwynnodd ar ei yrfa fel disgybl-athro yn Ysgol y Bwrdd Staylittle. Bu'n dysgu fel disgybl-athro yn Llanbrynmair ac yna yn Aberhosan, ac yn 1882 enillodd ei drwydded fel athro.

Troes ei gefn ar yr ysgol ac fe aeth i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth, a thra yno daeth i enwogrwydd fel bardd. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwysi Abermaw a'r Cutiau, ac ar Fehefin 25ain, 1896, fe'i sefydlwyd yn weinidog ar un o eglwysi bro'r Eco — Eglwys (A) Bethel, a bu'n weinidog ar yr eglwys am naw mlynedd, cyn symud i Fethesda lle bu'n gweinidogaethu am saith mlynedd.

Bob tro y cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Arfon, Meirion neu Maldwyn mi fydda i yn cofio am wasanaeth y gŵr amryddawn hwn ac am ei gyfraniad i blant Cymru, ac yn enwedig i blant Bethel ar droad y ganrif.

Ys gwn i faint o blant Bethel heddiw sy' wedi clywed amdano? Ei enw? Rhys J. Huws.

Syndod i mi yw na chafodd y gŵr hwn fwy o glod gan ei genedl. Efallai y gellir dweud mai'r anrhydedd fwyaf a gafodd oedd cael pennog gyfan iddo'i hun gan W. J. Gruffydd yn ei glasur *Hen Atgofion*, ac i'r Athro Gruffydd yn y bennod honno dalu teyrnged aruchel iddo am ei waith egniol gyda phlant Bethel. Rydw i'n credu'n gydwybodol y dylai plant Cymru wybod llawer mwy am Rhys J. Huws, ac y dylid o leiaf gofio amdano'n flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Gyda dyfodiad Rhys J. Hughes i Fethel yn 1896 daeth yna ryw fath o heulwen danbaid o addysg newydd i fendithio'r fro, ac fe ddefrowyd meddyliau'r plant a'r ieuencid gan ei ddawn gyfareddol i symbylu brwdfrydedd tuag at addysg.

Rwy'n berffaith sicr mai anfantais i mi a'm cyfoedion oedd y ffaith na chlywsom air am W. J. Gruffydd a Rhys J. Huws tra'n a-bi-ecio ein ffordd drwy ysgol Bethel. 'Rwyf yr un mor sicr hefyd mai mantais difesur i blant cyfnod Rhys J. Huws oedd iddynt gael clywed a deall gweithiau Goronwy Owen, Dafydd ap Gwilym a Beirdd yr Uchelwyr, ac efallai'n fwy na hynny, medru dadansoddi cynghanedd ac

ysgrifennu Cymraer cadarn a chywir. Fel y dywedodd Gruffydd yn ei *Hen Atgofion*...

I roddi peth help i'r genhedlaeth hon sylweddoli ei gampwaith mi ddywedaf hyn — yr oeddynt yn medru ysgrifennu gwybach a chadarnach Cymraeg nac ugeiniau o'r rhai sy'n cymryd Cymraeg fel cwsr gradd ym Mhrifysgol Cymru. Beth a roddwn am gael rhai ohonynt yn fy nosbarthiadau.

Fel y gŵyr pawb, nid gŵr a wasgarai glod oedd Gruffydd, os nad oedd y clod hwnnw'n haeddiannol.

Ond beth sydd a wnelo Rhys J. Huws ag Eisteddfod yr Urdd? Wel, yn ystod ei gyfnod ym Methel y cychwynnodd o y sefydliad addysg newydd hwnnw a elwir yn Eisteddfod y Plant. Oedd, fe roedd 'na gyrddau cystadleuol o'r math yma wedi eu cynnal o'r blaen mewn gwahanol fannau trwy Gymru, ond yn sicr ni ddatblygwyd y sefydliad i'r fath raddau o berffeithrwydd yn unlle, na chan neb, ag y gwnaethpwyd ym Methel gan Rhys J. Huws.

Y peth mwyaf arbennig ynglŷn ag Eisteddfod y Plant oedd mai'r plant a wna'i'r gwaith i gyd ag eithrio y beirniadu, ac arferai RJH sicrhau prif lenorion a cherddorion y wlad yno i feirniadu. 'Ynadon' oedd yr enw a roddwyd ar y beirniaid, a 'Bonwr' a 'Bonesig' oedd pob Mr a Miss yn yr Ŵyl. Coronid a chadeirid pobl ifanc a dodid plant hefyd i arwain corau, ac o dipyn i beth fe gerddodd y sôn ledled Cymru am Eisteddfod y Plant.

Efallai y dylwn egluro mai nad am farddoni y cynigiwyd cadair a choron yr Eisteddfod, ond yn hytrach am ateb cwestiynau ar weithiau beridd neu lenorion fel Dafydd ap Gwilym, Goronwy Owen, Ceiriog — hynny yw, ffrwyth gwaith y dosbarthiadau a gynhelid ganddo drwy'r gaeaf. Fel hyn y daeth to ar ôl to o blant Bethel i ddeall cyfrinach cynghanedd ac i wybod darnau o waith y prifeirdd ar eu cof. 'Roedd y diweddar Mr Ffowc

Williams, Llandudno, yn cofio dysgu 'Cywydd y Farn Fawr' Goronwy Owen i gyd ar ei gof un flwyddyn, a pha gynghanedd oedd ymhob llinell, ac yntau ond tua deuddeg oed.

Arferid cynnal yr Eisteddfod tua Gŵyl Ddewi, ar nos Wener a phrynhawn a nos Sadwrn, ond byddai rhaglen yr Eisteddfod wedi ei pharatoi ymhell cyn hynny — tua mis Medi.

Dyfynnaf Gruffydd o *Hen Atgofion* eto:

Pan oeddwn i tuag un ar bymtheg oed (tua 1897 felly, oherwydd ganed WJG yn 1881) daeth pen sydyn ar y Cyfarfod Llenyddol yn ei hen ffurf, a disodlwyd ef gan Eisteddfod y Plant, sefydliad a gychwynnodd gyntaf yng Nghapel Bethel, ond daeth Eisteddfod y Plant i derfyn ei gwasanaeth fel sefydliad lleol. Cynrychiolir hi heddiw gan Eisteddfod yr Urdd, a da gennyf feddwl, mai yn fy hen ardal i yr heurwyd yr hedyn sydd erbyn heddiw wedi tyfu yn bren mor gadarn.

Yn sicr fe ddylai plant Cymru fod yn gyfarwydd ag enw Rhys Jones Huws, 1862-1917.

Rhys J. Huws oedd y cyntaf i fyw yn Llys Myfyr, Bethel. Ef hefyd a roes yr enw Llys Myfyr ar y tŷ. Tŷ a gostiodd £725 i'w adeiladu.

Adeiladwyd y capel (A) cyntaf yn 1810, ond yn 1901 yr adeiladwyd o fel ag y mae heddiw. Dywedir i'r cpael gostio £2,500; y festri £450; a Llys Myfyr £725. Cyfanswm o £3,675. Talwyd y cyfan o'r dyledion heb na bazar, cyngerdd, darlith na

dim o'r cyfryw, ond trwy gyfraniadau rheolaidd yr aelodau, a chofier mai chwarelwyr cyffredin oedd bron bob un ohonynt.

Be dd'wedai Rhys J. Huws, y diweddar Barchedig R. Lloyd Mathews, a'r hen saint a roes eu hoes at yr Achos ym Methel pe baent yn digwydd pasio heibio i Llys Myfyr heddiw tybed? Mae gen i syniad go dda beth fyddai eu hymateb.

Sylweddolodd Rhys J. Huws mai trwy gydweithrediad ysgol, cysegr a chartref y perffeithir cenedl. Cyn belled yn ôl a dechrau'r ganrif hon fe ddywedodd...

Offrymir addysg, iechyd a hyd yn oed fywyd y bobol yn rhy aml ar allor y dreth.

Ac i gloi dyma un arall o'i ddywediadau y bydd pawb ohonom yn cytuno ag o rwy'n siŵr...

Nid yn aml yr aeth plentyn ar goll, y bu ei fam yn rhoi eiddo yn ei bryd, ei chusan a'i cherydd, ei gwên a'i gwog, ei gweddi a'i chynghor.

Wrth Droedio maes Prifwyl yr Urdd yn Nolgellau ymhén y mis efallai y bydd i rai ohonom gofio am Rhys J. Huws, sylfaenydd Eisteddfod y Plant. A chofiwch blant Bethel — bydd gennych bob hawl i ymfalchïo yn y ffaith mai yn ei pentref chi y plannwyd y fesen sydd erbyn heddiw wedi tyfu i fod yn dderwen mor gadarn.

Bu farw Rhys J. Huws ar Dachwedd 21ain, 1917, yn 55 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd ym mynwent Aberhosan.



Yswiriant Car neu
Yswiriant Tŷ
Gadewch i ni
Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor,
Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Blodau ar gyfer angladdau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

CARPEDI GLÂN

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf,
sydd ar gael. Am
fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

'Un funud fach...' OLD TRAFFORD A'R CAPEL COCH

Fi oedd rheolwr Man U. Ond doeddwn i'n eistedd ym mocs brics coch Alex Ferguson? Yn ystod yr ymweliad ag Old Trafford mi fuon ni hefyd yn y stafelloedd newid ac yn lolfa'r chwaraewyr, a chael hanes y Clwb a'r Stadiwm.

Wyddwn i ddim cynt bod un peth yn gyffredin i Old Trafford a Capel Coch Llanberis. Mae to'r stadiwm yn eang, yn fwy na'r un to arall yn Ewrop, ac yn gallu symud hyd at bedair modfedd mewn gwynt cryf. A than y to, mae yna lampau, ond feddyliodd neb yn wreiddiol y byddai angen newid byl! Roedd yn amhosib cyrraedd at y lampau, a bu raid ailgynllunio'r lampau fel y gellid eu codi drwy'r to. Mae 'na broblem debyg yn Capel Coch. Fedrwn ni ddim cyrraedd y lampau. A phan fo angen newid byl neu ddau rydan ni'n dibynnu ar hogia'r Frigad Dàn i ddod draw i ymarfer dringo'u hysgolion uchel.

Er mor wahanol y capel a'r stadiwm, mae'r un nam yn gyffredin iddynt. A beth bynnag y gwahaniaethau sydd rhwng pobl â'i gilydd, mae un peth yn gyffredin i bawb. Mae rhyw nam ynom; fyw fai; rhyw duedd — gair y Beibl amdano yw pechod. Y mawr a'r bach; y cyfoethog a'r tlawd; y doeth a'r ffôl; yr ifanc a'r hen; mae pawb ohonom wedi methu byw bywydau perffaith, ac wedi torri gorchmynion Duw.

Mae angen delio â'r nam hwn. Os na wneir hynny, yn y tywyllwch y byddwn ninnau, heb berthynas iach â'r Duw a'n creodd. Fe allem geisio gwella rhyw chydig ar ein bywydau, a pheidio gwneud y pechod hwn ac arall. Ond ateb annigonol fyddai hynny, a byddai'r wir broblem yn aros, yn union fel mae lampau'r capel yn aros yn broblem wedi i'r hogia tân fod acw. Gwell o lawer fyddai i ni gredu yn y Gwaredwr Iesu, a derbyn drwyddo Ef faddeuant llawn am ein holl bechodau; a chael hefyd natur newydd o'n mewn, a gras i geisio ufuddhau o'r newydd iddo Ef. Dyna fyddai mynd i'r afael â'r broblem; fel ag a wnaed wrth ailgynllunio lampau'r stadiwm.

JOHN PRITCHARD

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259



Mewn Noson Goffi, ar Chwefror 18fed, dewiswyd Brenhines Carnifal Deiniolen 1994, sef Julie Ann Jones; ac fe ddewiswyd Tina Taylor a Donna Marie Lewis yn forynion. Fe welir y dair yng nghanol y llun gyda brenhined a morynion Carnifal 1993.

Plaid Cymru — Enillwyr Clwb 100 mis Ebrill — £10: Mr Hywel Lewis, Llys Annedd; £5: Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin.

Priodas: Ddydd Sadwrn, 26 Mawrth, yn Eglwys y Santes Fair, Ashford, Caint, priodwyd Robert Aled, mab Donald a Nan Jones, 2 Tai Gweledfa, Deiniolen â Linda Dale, merch David ac Indie Nimmo, Awstralia. Rheolwr cynorthwol sustem peirianeg ym mhwerdy Sizewell B yw Aled a Linda yn therapydd llefaru yn Ysbyty William Harvey yn Ashford.

Dymuniadau gorau i'r ddau yn eu bywyd priodasol.

Dymuna Aled a Linda ddiolch i'w teulu, ffrindiau ac ardalwyr Deiniolen am y llu anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Clwb Elidir: Cafwyd cyfarfod ar Mawrth 22, dan lywyddiaeth Mrs

Eirlys Ll. Jones, a mwynhawyd cwis a oedd wedi ei drefnu gan Mrs Jane Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Hannah J. Thomas, Mrs Jane Jones a Mrs Glenys Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Jane Jones a'r enillydd oedd Mrs Mair Owen. Anfonwyd ein cofion at Mrs Hannah J. Thomas, aelod ffyddlon iawn o'r Clwb, sydd heb fod yn teimlo yn rhy dda y dyddiau yma.

Yn ein cyfarfod ar y 5ed o Ebrill tro yr aelodau Saesneg yn ein plith oedd trefnu y cyfarfod a chafwyd cwis Saesneg am dipyn bach o newid. Fe'i trefnwyd gan Mrs Dolly Brown, Mrs Eve Braithwaite, Mrs Edna Coles, Mrs Pat Evans a Mis Jean Moeller, ac fe fwynhawyd y prynhawn gan bawb. Rhoddwyd y te gan Mrs Ellen Williams, Mrs Jane C. Hughes a Mrs Glenys Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Ellen Williams a'r enillydd

oedd Mrs Megan P. Morris. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Mrs Annie M. Morris.

Codi'r Gwpan: Ddydd Sadwrn, 16 Ebrill, wynebodd tîm pêl-droed Deiniolen dîm Llansannan yn ffeinal Cwpan Iau Gogledd Cymru ar gael Bae Colwyn. Roedd yn argoeli'n dda — tywydd braf, torf dda, a dau o dimau gorau'r gogledd yn wynebu ei gilydd.

A bod yn dëg, Llansannan oedd tîm gorau'r hanner cyntaf gan ennill pob dim yn yr awyr ac yn rheoli canol y cae. Wedi dweud hynny, Deiniolen ddaeth agosaf at sgorio. Trawodd Arwel Hughes gic gosb wych yn erbyn y bar, a daeth Gwyndaf Jones o fewn dim i sgorio gyda'r ail-gyfle (ond, gofynnwch i rywun oedd wrth ymyl y gôl ac mi dd'wedant wrthych fod y bêl wedi croesi'r lein!!).

Golwg digon pryderus oedd ar wynebaw llawer o hogia Llanbabs ar ddiwedd yr hanner cyntaf, ond buan iawn y trodd pethau yn yr ail hanner. Ar waethaf cyflwr y cae fe lwyddodd yr hogia i chwarae ffwtbol da, ac i ddechrau rheoli'r gêm. Yna, wedi 50 munud, dyma daran o gic o ymyl y bocsg gan Dilwyn Morris a dyna hi'n 1-0. O'r funud honno dim ond un tîm oedd ynddi, a rhyw 10 munud o'r diwedd sgoriodd Dewi Williams yr ail gôl, i selio'r gêm.

Mae'n anodd enwi unigolion gan i bawb chwarae fel un yn yr ail hanner. Ond, wedi dweud hynny rhaid llongyfarch yn arbennig John Williams, y rheolwr, am ei waith da drwy'r tymor a'r llall yw Gwilym Williams (y goli). Mae Gwil yn ymddeol eleni wedi gyrfa hir a llwyddiannus gydag amryw o dimau'r ardal, a dyma ddiwedd arbennig i'w yrfa.

Diwrnod i'w gofio felly, a Llanbabs yn codi Cwpan Iau Gogledd Cymru.

Ysgol Gwaun Gynfi: Rydan ni wedi dod yn ôl i'r Ysgol ar ôl gwylia'r Pasg. Themâu y dosbarthiadau y tymor yma ydy: Coed, Tŷ Ni, Paned o De, Fi fy Hun, ac Adar ac Anifeiliaid. Rydan ni wedi bod yn plannu coed yng Nghae Tan y Ffynnon. Buom yn plannu coed celyn, coed helyg, castanwydden a sycamorwydden. Diolchwn i Mr a Mrs Wilcox am eu cymorth. Aeth Andrea, Aletea a Llinos i Fangor i weithdy celf gyda Gofal Golwg Gwynedd. Roeddynt yn gweithio gyda myfyrwyr yn gwneud modelau cardfwrdd.

Fe fu plant dosbarth 5 yn Amgueddfa Llanberis yn gweld lluniau Jamie Reid. Cawsom gyfle i dynnu lluniau ar lechi yn seiliedig ar ei waith. Gwanethpwyd elw o £263.80 yn y Ffair Basg a gynhaliwyd y tymor diwethaf.

Rydan ni wedi derbyn pecyn o lyfrau gan gwmni Birds Eye, diolch am gasglu gymaint o docynnau.

GOHEBWYR: LOUISE A KELLY

ERIC JONES

PENISARWAUN

Ffôn: 872421

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

- ★ Prisiau rhesymol
- ★ Spreio tu mewn a thu allan
- ★ Estimates am ddim

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Cydymdeimlwn â Mr David Williams, Bryn Hyfryd, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

Gwellhad buan i'r rhai sy'n wael yn yr ardal.

Colled: Yn Ysbyty Llandudno, ar Ebrill 16, bu farw Mr Hugh Thomas, Garnedd gynt. Bu'n aelod ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Tan-y-coed. Cydymdeimlir â Mrs Thomas a'r ferch yn eu profedigaeth.

CHWILOTA

Doctor Cwac y Waunfawr



Rhag ofn i mi gael fy nghyhuddo o fod yn blwyfol, ac aros yn Nyffryn Peris, dyma fentro dros ysgwydd y Cefn Du i lannau'r Wyrfaï y mis hwn. Mae rhyw draddodiadau o feddyginiaethau yn perthyn i'r ardal; efallai oherwydd fod cysylltiad pur agos rhwng plwyf Betws Garmon a phlwyf Llanfihangel-y-Pennant dros Fwlch y Ddwy Elor. Roedd teulu o feddygon esgyrn yn byw yng Nghwm Pennant, ac efallai fod eu dylanwad wedi cyrraedd bro Cwellyn a Gwyrfaï.

Mae David Thomas yn ei nodiadau ar hanes pentref ac aral y Waenfawr yn crybwyll Siôn Jones y Doctor — *'hen ŵr nodedig am ei fod yn gallu asio esgyrn ac iacháu archollion y rhai fyddai wedi cael eu hanafu yn y mân chwarelau ar y Cefn Du. Byddai ef hefyd yn casglu dail ac yn eu cynaeafu, ac yn gwneud trwyth ohonynt i wellhau gwahanol anhwylderau; a chleifion yn cyrchu ato o bell ac agos. Yr wyf yn credu fod llawer yn tybied ei fod yn gallu ymgysyllachu â rhyw fodau anweledig.'*

Nid oedd David Thomas yn cofio Siôn Jones y Doctor, dim ond clywed hynafgwyr y Waenfawr yn sôn amdano. Tybed, felly a oedd y fath berson yn bod? Wel oedd, yn bendant. Yng Nhofrestr Plwyf Betws Garmon am y flwyddyn 1798 ceir cofnod o gladdu Jane, merch John Siôn Morgan o'r Waenfawr *'quack doctor'*! Roedd yn byw yn yr ardal ar droad y ganrif ddiwethaf ac yn cael ei gydnabod fel rhyw fath o feddyg gan Glerc y Plwyf ar y pryd. Byddai'n ddiddorol cael gwybod mwy o'i hanes.

* * * *

Pobl 1794

Daeth nifer o ymholiadau ynglŷn â rhai o'r cymeriadau a grybwyllwyd yn yr atodiad i rifyn 200 o'r Eco. Cefais fwy o wybodaeth am Robert Dafydd Luke, yr adeiladydd tai o'r Waenfawr. Gwyddwn ei fod yn frawd i Owen Dafydd Luke a fu'n

byw yn Llanrug, ac a gyfrifid yn gawr o ddyn ac yn ymladdwr o fri. yn ystod y mis diwethaf deuthum ar draws cofnod claddu ei wraig, Jane ach Rhisiart, ym mynwent Betws Garmon ddiwedd Hydref 1804. Cefais hefyd wybod ple claddwyd Robert Dafydd Luke — ac nid gyda'i wraig, ond ym mynwent Llanwnda ar ddydd calan 1814. Roedd yn 72 mlwydd oed, ac yn byw ar ddiwedd ei oes yn y Garth, plwyf Llanwnda.

Roedd y sylw am briodas John Huxley yn eglwys Llanrug o fudd i wraig o'r Waenfawr a oedd yn chwilio hanes ei theulu, ac yn medru olrhain ei hachau un genhedlaeth ymhellach oherwydd y wybodaeth.

Cefais hefyd ymholiad ynglŷn â theulu Cilgwythwch, Llanrug, fel roedd y llith hwn yn cael ei baratoi i fynd i'r wasg.

* * * *

Teulu Francis, Llaberis

Mae pytau ychwanegol am y teulu hwn yn dal i ddod i law. Gan Miss O. M. Davies, Bangor, y daeth y newydd diweddaraf: *'Roedd Dilys yn y chweched dosbarth ym Mrynrefail yr un pryd â mi. Roedd yn astudio Mathemateg a Physeg, ac aeth ymlaen i Goleg y Brifysgol, Bangor. Roedd gan y teulu ddwy siop yn Llanberis — un yn gwerthu cardiau post a phetheuach i'r twristiaid, a'r llall yn gwerthu da-da, siocled, sigarêts a baco.'*

* * * *

Cofio Siopau Llanrug . . . a'r Brygwyn, Tan y Coed a'r Ceunant

Sgwrs ddiddorol ar y ffôn gyda Mr Meurig Owen, Llundain, yntau'n cofio'r holl wahanol siopau yn Llanrug, ac yn cynnig gwybodaeth ychwanegol. Siop Mary Hughes oedd y siop da-da enwog honno yn Llain-gro, ac mewn cwt pren yng nghefn Gwynfryn, Ffordd yr Orsaf, yr oedd y siop chips. Credai mai teulu o ardal Rochdale oedd yn ei chadw — perthnasau, neu gyfeillion, i deulu Rochdale House, Pontrhythallt. mae hefyd yn cofio Siop Furum Miss Owen, ond nid oherwydd y burum, ond am ei bod yn gwerthu afalau. Yn ôl Mr Owen roedd coeden afalau go arbennig yn tyfu yng nghefn y siop, a byddai'r afalau yn cael eu gwerthu yn y siop furum. Enw Mr Owen arnynt oedd *'fala' crwyn hwch'*. Chlywais i erioed y disgrifiad hwn o'r blaen am *russett apples*. Oes rhywun o'r darllenwyr yn defnyddio'r enw? Aeth ymlaen hefyd i enwi rhai o siopau ardal Bryngwyn, Tan y Coed a'r Ceunant, ond gadawn yr hanes hwnnw i Mrs Jenny Hughes o Hafan Elan, Llanrug (gynt o Dan y Coed). Anfonodd lythyr diddorol am wahanol siopau'r ardal wasgaredig honno:

Mr a Mrs Elis Jones a'u merched oedd yn cadw'r Becws yn Bryngwyn. Roedd un ffenestr yn llawn o bob math o dda-da, a'r ffenestr arall yn llawn cacennau a bara. Pan oeddwn yn blentyn mi fyddwn yn mynd a thoes i'r becw mewn trol fechan ddwy olwyn — hynny ar y ffordd i Ysgol Bryn Eryr yn y bore — a galw ar y ffordd adra i nôl y bara wedi ei grasu. I'r becw hefyd y byddai pobl yr ardal yn mynd a'u ffowls i'w coginio at y 'dolg.

Yn Nhan y Coed roedd siop Mr a Mrs Hughes — yn gwerthu moddion fel Asifeta, Tincti-Rhiwbob, ac amryw foddion eraill, ond rhaid oedd mynd a photel wag yno i'w nôl. Roedd y siop yn gwerthu'r 'groceries' arferol hefyd, wrth gwrs. O'r 'warehouse' uwchben roeddent yn gwerthu blawdia' i'r ffermydd cyfagos, a

AMGUEDDFA'R GOGLEDD

Mae'r Amgueddfa yn cynnig tocynnau preswylwyr lleol arbennig eto eleni i drigolion plwyf sifil Llanberis, Llan-ddeiniolen a Llanrug.

Cost y tocyn fydd £5 a bydd yn caniatáu mynediad i holl arddangosfeydd yr Amgueddfa (gan gynnwys taith bws ar ymweliad â Gorsaf Drydan Dinorwig) am y cyfnod Ebrill 1994 hyd Mawrth 1995.

Os ydych â diddordeb mewn prynu tocyn dylech gysylltu â'r Amgueddfa yn Llanberis (0286) 870636.

ninnau'n blant yn cael mynd yn y cart a'r ceffyl i'w danfon i'r Hafod ac i'r Garth.

Y drydedd siop oedd un Lewis Roberts. Ar wahân i'r 'groceries' a'r moddion annwyd arferol, byddai'n gwerthu glo i'r ardal, ac yn rhedeg bws i Gaernarfon dair gwaith yr wythnos. Naw ceiniog (yr hen arian) fyddai'r 'fare'.

Dywed Mrs Hughes fod siop barbw'r wedi bod yn ei chartref yn Minffrwd ymhell cyn ei geni hi, a bod cof ganddi hefyd am siop fechan yn cael ei chadw mewn parlwr tŷ yn y Ceunant.

* * * *

Nefydd Hughes Cadfan

Y mis diwethaf addawyd erthygl ar y cymeriad hwn a ddaeth i'r ardal o Batagonia. Erbyn hyn mae mwy o wybodaeth (a lluniau) i law. Diolch i Mrs Margaret Roberts o Gaernarfon (Brynrefail gynt) am anfon yr hanes a'r lluniau. Mae'r ddwy erthygl yn ymddangos mewn rhan arall o'r papur.

* * * *

Steddfod Caeathro

Pryd bu steddfod yng Nghaeathro? Y mis nesaf cawn gynnyrch buddugol un o'r eisteddfodau hynny, a phenillion o folawd i Blas Glangwna.

Diolch i bawb sy'n ymateb i'r golofn, a daliwch i anfon gwybodaeth, atgofion neu ymholiadau am hanes eich bro i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (0286) 673515.

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.


Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

TRYSOR COF

gan ALICE E. WILLIAMS, Caernarfon

Teimlo'n swp sâl hefo andros o ddôs o annwyd 'roeddwn i brynhawn ddod pan adawodd Jennie, fy chwaer, rifyn Mawrth o Eco'r Wyddfa imi. Gŵyr hi yn eitha da y pleser a gaf o'i ddarllen bob amser a chredai, yn yr achos yma, y byddai cystal â chegiad o ffigis. Diawcs mi 'roedd hi'n iawn hefyd!

Cyn pen dim 'roeddwn i wedi ymgolli yn atgofion personol Selwyn, John Ellis, Gors, a David Whiteside, a.y.y.b. Gall yr Eco fod yn hen walch hefyd gan 'i fod o yn adlais i hanes ac atgofion sy'n rhwbio trwyn un (hwnnw'n waeth heddiw hefo'r annwyd) yn y ffaith nad deunaw oed ydy o bellach!

Daw euogrwydd drosof yn aml hefyd am beidio ysgrifennu yn fwy cyson i'r Eco a fedrwn i ddim peidio teimlo ton o gywilydd ac euogrwydd wrth ddarllen brawddeg gynhwysfar David Whiteside: 'ac y mae'n dipyn o gamp cael tri i gyfrannu i'r Eco y dyddiau hyn!' Dyma ymgais i wneud iawn am hynny felly.

Efallai mai'r geiriau 'tewach gwaed na dŵr' fyddai'n cydweddu orau gyda'r sylwadau a ganlyn. Wedi'r cyfan, troi'r dŵr i'w felin ei hunan wna pawb pan yn dechrau hel atgofion. Mae peth tristwch wrth orfod cyfaddef fod llai a llai o bobl yr ardal yn cyfeirio ataf fel merch ieuengaf Dafydd Gôf (Llanberis) a Bet Robinson (Brynrefail) y dyddiau yma. Fodd bynnag 'roedd darllen y golofn 'Chwilota' a'r cyfeiriad at Nefydd o Lanberis wedi ysgrifennu erthygl 'Trol Gyntaf y Wladfa' i *Gymru'r Plant*, 1923, yn fy atgoffa mai un o ddisgynyddion y Robinsiaid ydw i, ac mae'n ffrainc gallu cydnabod mai o'r un cyffwrdd oedd 'Nefydd' hefyd, sef Y Parchedig Nefydd Hughes Cadfan. Ganed ef yn y Wladfa yn fab i Lywelyn Cadfan, Dinorben, Patagonia. Mae'n debyg iddo ddod i Gymru i gael ei addysg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Bangor, a'i fryd ar y Weinidogaeth.

Yn y fan yma rhaid cyfaddef fod atgofion plentyndod, ac ambell stori deuluol, yn felys iawn. Cofiaf yn dda am Yncl Robert David Robinson (taid y Parchedig Marcus Robinson) yn sôn fel y bu iddo fynd, ychydig yn hwyr, i gyfarfod ei gefnder

'Nefydd' oddi ar y llong pan laniodd ym Mhenbedw neu Lerpwl. Mae'n debyg fod tipyn o strach ar y lanfa gan na allai Nefydd siarad Saesneg — dim ond Cymraeg a Sbaeneg!

Wedi datrys y broblem aeth ag o i'w gartref am noson cyn iddo orffen ei daith i Gaernarfon i aros hefo'i fam yn 44 Stryd Victoria (mam Yncl Robert David; Anti Annie, Ty'n Llain; Anti Lizzie, Llanberis; Yncl Wil, Capel Seion; Yncl Jac, Tre-garth; ac Yncl Tomi, Birmingham). Ni chofiaf hi ond cyfeiriai fy mam ati'n annwyl iawn fel Anti Margiad, Dre'. Ymgartrefodd Yncl Nefydd yng Nghaernarfon ac yn ddiweddarach yn Nhy'n Llain (ger Morfa Eryri) gyda Anti Annie ar ôl marwolaeth ei mam.

Cofiaf Yncl Nefydd, a'i wraig, Anti Enid, yn reit dda. Bu'n Weinidog am ychydig yn Llanberis, dwi'n meddwl, ac yn Jerusalem, Penmaenmawr am rai blynyddoedd ac yna yn Nhrefnant, Clwyd, at ddiwedd ei oes. Byddai'n dod yn rheolaidd bob mis Awst i bregethu i Gaernarfon, Llanberis a Brynrefail.

'Falle fod ei fagwraeth ym Mhatagnoia wedi ei wneud yn dipyn mwy 'out-goint' na ni a oedd dipyn yn gysetlyd, a chofiaf yn dda fel y byddai Anti Lizzie, Llanberis, yn mynd i'w gilydd i gyd pan fyddai Yncl Nefydd yn rhoi clamp o gusan iddi, hyd yn oed os y byddent ar ganol stryd Llanbêr. Melys gofion. Byddai'n barddoni neu rigymu hefyd yn

ogystal ac ysgrifennu erthyglau i gylchgronau a phapurau newydd. 'Roedd penillion arbennig wedi eu cyfansoddi ganddo ar gyfer dathliad pen-blwydd Anti Nel, Capel Seion, yn 80 oed (mam Glenys Salisbury a'r diweddar Robin Robinson). Addawodd Glenys anfon copi o'r penillion i mi. Dyna i chi pwy oedd 'Nefydd' felly.

Cyn gorffen hyn o sylwadau dylwn gyfeirio at y ffaith fod yna dipyn o'r Robinsiaid a'u disgynyddion o hyd yn yr ardal yma. Rhaid cyfaddef mai digon arwynebol fu fy ymchwil, hyd yma, i achau'r teulu. Gwn mai o gyffiniau Oban yn yr Alban y teithiodd y Robinsons cyntaf tua'r De, oherwydd erledigaeth crefyddol tua chanol yr ail ran o'r ganrif ddiwethaf. Faint ohonynt ymfudodd ni wn. Mae'n debyg i rai ymgartrefu yn Nyffryn

Clwyd cyn i rai eraill ohonynt symud ymlaen i ardal y chwareli. Cofiaf fy nhaid Robinson, Bryn Madog, Brynrefail, yn cerdded yr holl ffordd i Ddyffryn Clwyd i angladd un o'i dylwyth.

Wnes i 'rioed sylweddoli nad Cymro oedd fy nhaid a chlywais i 'rioed mohono'n siarad dim ond Cymraeg, ag eithrio gyda ambell Sais neu Saesnes a alwai ym Mryn Madog. Mae'n amlwg ei fod yn ei ugeiniau pan ddaeth i Gymru gyntaf a phriododd fy nain (Jane Rowlands, Pen-y-llyn). Ar ddalen flaen Beibl o'i eiddo sylwaf fod ei enw, ei gyfeiriad, y llthyrennau R. Sc, dyddiad Nov. 1st, 1911, a'r geiriau 'Had it long time before' — y cyfan yn ei lawysgrifen ef ei hunan sydd, gyda llaw, yn sobor o debyg i'm llawysgrifen i.

Ia wir, anodd tynnu dyn oddi ar ei dylwyth!

ALICE E. WILLIAMS

NEFYDD HUGHES CADFAN

gan MARGARET WYN ROBERTS, Caernarfon

Daeth Nefydd Hughes Cadfan o Batagonia i aros gyda'i gyfnither Annie i Dy'n Llain, Caernarfon. 'Roedd hi'n briod â chefnder fy nhad, sef Jack Roberts. Deuai Nefydd i aros i Ben-y-bryn, Fachwen, at fy nain a'm taid yn aml, a daeth yn gyfaill agos i Ioan, Tom, Emrys, Elfed ac Alun ac yn gariad i Maggie! Cofia Alun amdano fel cymeriad hapus, bochgoch â chwerthiniad iach.

Y dyddiad cyntaf i'w gofnodi yw Nadolig 1927 y tu ôl i lun a anfonodd i'r teulu. Tynnwyd y llun yn Aberystwyth pan oedd yn fyfyrwr yno. Mae llun arall ohono gyda myfyrwyr eraill wedi ei ddyddio 29 o Fawrth 1930, a'i lun yn cael ei gapio yn haf 1931, ar ôl ennill ei radd.

Yn 1929 ysgrifennodd bennill yn albwm fy modryb:

Mae'i sirioldeb hi'n gweddnewid
Pob rhyw anial prudd yn ardd;
Ac o'i chalon hynaws, dyner
Mwyn rinweddau'n gyson dardd.
Boed ei llwybr fyth yn esmwyth
Ffynnon cysur fo'n ddi-drai,
A'i holl yrfa'n dyner brydferth
Megis balmaidd ddydd o Fai.

Pan fu farw fy nain ym Medi 1930 ysgrifennodd Nefydd y penillion hyn:

I Ellen Roberts, Pen-y-bryn
Ffarwél haf yw cennad Medi
Gyda'i feusydd gwyn;
Ond mwy tris ei gennad 'leni
Iddynt ym Mhen Bryn.

Ddoe y fam a'r priod hoffus
Gyfa'r gofal llwyr;
Heddiw'r teulu'n galon glwyfus
Heb ei llais fin hwyr.

Gwasgar cyfin hedd hudolus
Oedd ei gwenau mwyn.
Wyla'r ffrindiau yn gwynfanus
Am i'r nef ei dwyn.

Carai gwmni'r pererinion
Yn ei dyfnaf boen,
Hoffai gân a gweddi Seion,
Parchai enw'r Oen.

Carem gwmni un mor dirion
Am flynyddoedd maith
Ond bodlonwn iddi weithion
Wynfyd ben y daith.

Cofio'r dwylaw fu mor weithgar,
Llonydd iawn y ddwy;
Cofio'r wyneb oedd mor hawddgar
Nid â'n ango' mwy.

Tawel fu ei horiau olaf
Fel ei bywyd gwyn;



Nefydd yng ngwisg yr Orsedd.

'Adra, Adra,' meddai'n araf
Pan yn croesi'r glyn.

Pan ddaw'r gwanwyn dros y dolydd
Dôf yn brudd fy ngwedd
A rhof flodau'n dorch ysblennydd
I addurno'i bedd.

Chwe mlynedd ar ôl marw fy nain
dywed mewn llythyr, 'Yr oedd fy
mharch a'm hedmygedd o'ch annwyl
fam yn fwy nas gallaf ddweud mewn
geiriau, ac fe erys fy atgof amdani yn
gysegredig iawn o hyd.'

Mae nifer o lythyrau Nefydd
Hughes Cadfan yn fy meddiant
erbyn hyn, ac mae un o ddiddordeb
arbennig gan iddo gael ei ysgrifennu

(I'w barhau ar dudalen 9)

**AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM**

FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



DDEUNAW MLYNEDD YN ÔL

Roedd sôn yn yr *Eco* am gyfarfod arbennig a gynhaliwyd i ddadorchuddio cofeb i T. Rowland Hughes. Gosodwyd y gofeb ar wal y tŷ lle ganed y bardd-lenor yn 20 Stryd Goodman, Llanberis. Ar ôl y dadorchuddio bu gwasanaeth yng nghapel Gorffwysfa o dan arweiniad y Parchg John Owen. Siaradwyd gan Mr Edward Rees (cyn-Brifathro'r Coleg Normal), a Mr Rowland Wyn Jones, nai T. Rowland Hughes. Canwyd geiriau o waith y bardd, 'Dwy law yn erfyn', gan Gôr Plant Ysgol Dolbadarn.

Nid cofeb, ond pont, oedd wedi ei gosod yn Nant Peris, a doedd y pentrefwyr ddim wedi eu plesio . . . 'Yn ystod y mis agorwyd y llwybr troed a'r bompren yng nghanol y pentref. I wneud y llwybr rhaid fu torri'r pymtheg coeden fasarn a fu'n rhan o harddwch y pentref cyhyd. Fe'u planwyd 150 o flynyddoedd yn ôl pan adeiladwyd y ffordd bresennol, ac o dan y coed hyn y cynhaliwyd y ffair entwog — Ffair Nant. Nid yw'r briodas rhwng y ddwy bont wedi bod yn un hapus iawn, ac mae'r pentrefwyr yn methu â dygymod â rhyw erthyl o bompren wrth ochr y bont gerrig gadarn.'

Ac ar y cael pêl-droed — Llanberis enillodd y gêm darbi gyntaf i'w chofnodi gan yr *Eco*, o un gôl i ddim yn erbyn Llanrug. Ond mewn gêm ar ddydd Llun y Pasg, colli wnaeth hogia Llanbêr o bedair gôl i ddim yn erbyn tîm o hen chwaraewyr y clwb.

YN Y LLE IAWN AR YR ADEG IAWN

Peth braf mae'n siŵr yw bod yn bresennol pan dorrir record byd. Daeth y profiad yn ddiweddar i Alan Williams o Fethel. Mae Alan allan ar ynysoedd braf Môr y Caribi yn gwylio y ddwy gêm brawf olaf rhwng y tîm cartref a Lloegr. Fe gofia am byth am fatiad anhygoed Brian Lara yn torri record Gary Sobers a safai ar 365 o rediadau. Batiwr llawchwith yw Alan hefyd, felly bydd ei gyd-aelodau yn nhim Fron Dinas yn gobeithio ei fod wedi dysgu llawer wrth yllio'r arbenigwyr. I fod yn deg ag Alan, mae yna fyd o wahaniaeth rhwng y llain yn Antigua a llain welltog Fron Dinas. Yn sicr bydd gan Alan lu o atgofion wedi iddo ddod adref.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau i Martin, Fron Gader, a Bethan, 3 Bryn Hyfryd, Tal-y-sarn, ar eu dyweddïad.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs Barbara Owen, Bryn Hyfryd, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

Cymanfa: Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yr Annibynwyr yng Nghapel Jerusalem, Llanberis, ddydd Sul, Ebrill 17. Y Llywydd yng nghyfarfod y plant yn y prynhawn oedd y Parchg John Pritchard a'r arweinydd oedd Mrs Mair Lloyd Hughes, prifathrawes ysgol Cwm-y-glo. Cymerwyd y rhan agoriadol gan blant Ysgol Cwm-y-glo a chymerwyd rhan gan barti oedolion eglwys Jerusalem, plant eglwysi Nant Padarn a Chapel Coch, Ebeneser a Bosra. Rhoddwyd yr anerchiad gan Mrs Falmay Pritchard. Diolchwyd i'r plant am waith canmoladwy, ac i'r rhai a fu yn eu hyfforddi, gan y Parchg John

Pritchard.

Yng nghyfarfod yr hwyr cymerwyd y rhan agoriadol gan Mrs Nansi Jones, Jerusalem. Yr arweinydd gwadd oedd Mr Arwel Jones a chymerwyd rhan gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Yr organyddion yn y ddau gyfarfod oedd Mrs Hefina W. Jones a Mr Robert Lloyd.

Diolchwyd i bawb a gymerodd ran i wneud y Gymanfa mor llwyddiannus gan y Llywydd, Mr Hugh R. Jones, Jerusalem.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 11 Mai. Dechreuwyd trwy weddi. Cafwyd adroddiad gan Mrs Enid Taylor am y pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor ar 16 Mawrth. Mae'n rhaid cael enwau pawb sydd angen Dyddiadur neu Galendr am 1995 cyn 27 Mai.

Croesawyd ein gŵr gwadd, Mr Bryn Williams, gan Mrs Taylor. Aelod o dîm GISDA yw Mr Williams a chafwyd sgwrs am ei waith yn y fenter hon. Mrs Joan Williams a Mrs

Viv Jones oedd yn gofalu am y baned. Rhoddwyd y ddwy raffl gan Mrs Edwards a Mrs Lathom ac fe'i henillwyd gan Mrs J. Williams a Mrs Gwyneth Roberts. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Hilda Orritt. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 9 Mai.

Ysgol Cwm-y-glo: Llongyfarchiadau i Mrs Hilda Orritt, y gogyddes, am fod yn llwyddiannus yn y cwrs arlwyio yn ddiweddar . . . un tystysgrif arall at y casgliad.

Dydd Gwener, Ebrill 15fed, cyflwynodd Andrew a Jessica rodd i Anti Sioned fel arwydd o werthfawrogiad am ei gwaith yn cynorthwyo yn y gegin. Serch hynny, ni fydd Anti Sioned yn gadael yr ysgol ond yn hytrach newid ei dyletswyddau.

Enillwyd gwobr gyntaf Clwb yr Ysgol am fis Mawrth gan Mrs Marjorie Roberts, a'r ail wobwr gan Mrs Iris Rowlands.

Bawn Sul, Ebrill 17eg, aeth pump o blant i gynrychioli'r Ysgol yng Nghymanfa'r Annibynwyr yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Diolch arbennig iawn i Arwyn, Jennifer, Branwen, Keith a Carys am gymryd y gwasanaeth agoriadol yno a gwneud eu gwaith yn raenus.

PWY YW RHAIN?



Anfonwyd y llun hwn atom gan Mrs Vera Griffith, 52 Dôl Elidir, Llanberis. Ei thad, y diweddar Wil Davies, Penrallt, sydd ar y chwith yn y llun. Holi mae Mrs Griffith a oes rhywun yn gwybod pwy yw'r dynion eraill welir yn y llun. Byddai'n hoffi gwybod hefyd pryd tynnwyd y llun. Tybed a gafodd ei dynnu ar unrhyw achlysur arbennig? Anfonwch air at Mrs Griffith neu at y golygyddion os oes gennych unrhyw wybodaeth am y llun.

Robin Hood ym Methesda

Ers diwedd mis Mawrth mae Pwyllgor Rheoli Neuadd Ogwen ym Methesda wedi bod yn cynnal Sinema Ogwen bob yn ail nos Sadwrn. Eisoes fe ddangoswyd ffilmiau fel 'Jurassic Park' ac 'Adams Family'. Bydd y ffilmiau nesaf yn cael eu dangos nos Sadwrn, Mai 7fed. Y ffilm 'Robin Hood' fydd yn cael ei dangos am 5 o'r gloch, gyda'r ffilm 'Mrs Doubtfire' yn dilyn am 7.30 o'r gloch.

Ymysg y ffilmiau a fydd yn dod i Fethesda cyn bo hir y mae 'Remains of the Day' a 'Free Willy'. Mae'r trefnwyr yn benderfynol o geisio sicrhau'r ffilmiau diweddaraf a mwyaf poblogaidd ar gyfer y Sinema. A hyd yn hyn maent wedi cael eu plesio hefyd gan rif y cynulleidfaoedd. Gobeithio bydd y gefnogaeth yn parhau.

Dim on £2 i oedolion a £1 i blant yw pris y tocynnau. Os am noson yn y pictiws, beth am fynd draw i Fethesda ryw nos Sadwrn. Am ragor o fanylion cysylltwch â Linda Brown ar Bethesda 601526.

Yr Herald

Mewn llythyr yn rhifyn olaf un *Yr Herald Cymraeg* roedd gŵr o Gaernarfon yn gofyn beth sydd yn y papurau bro na fedrai gael ei gynnwys yn *Yr Herald* newydd. Mae'n debyg ei fod yn cael trafferth gweld yr angen am bapurau bro fel *Eco*'r *Wyddfa*, Go brin bod angen bellach gyfiawnhau bodolaeth y papurau bro; mae'r *Eco* a'i debyg wedi hen ennill eu plwy yng Nghymru. Ond ni ddymunai neb i hynny ddigwydd ar drau papurau Cymraeg eraill. A dyna pam y dymunwn yn dda i'r *Herald* newydd a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ar Ebrill 23. Gobeithio bydd cylchrediad y papur hwn, sy'n cyfuno *Yr Herald Cymraeg* a *Herald Môn* yn uchel ym mro'r *Eco*.

Nid cystadlu yn erbyn y papurau bro y mae *Yr Herald* yn gymaint â chystadlu yn erbyn ei chwaer bapur, y *Caernarfon* and *Denbigh*. A thybed nad cam gwag oedd i berchnogion Papurau'r *Herald* drefnu ymgyrch werthu yn cynnig y papur Saesneg am hanner pris am ddeufis ar union adeg lansio'r *Herald* newydd. A gollwyd cyfle i drefnu ymgyrch werthu debyg ar gyfer y papur Cymraeg?

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

GWASANAETH DEINTYDDOL O DAN Y GWASANAETH IECHYD DYLAN THOMAS

B.D.S. (Cymru), DEINTYDD

Y DDEINTYDDFA
39 STRYD Y CAPEL, CAERNARFON
Ffôn: (0286) 672914

(Parhad o dudalen 7)

ar long ar ei ffordd i Drelew ar ôl iddo raddio yn Aberystwyth. Ar gefn yr amlen mae stamp: 'R.M.S.P. Demerara, 16 Oct. 1931 — On the HIGH SEAS,' a marc post 'Southampton, 3 Nov. 1931 — PAQUEROT' ar flaen yr amlen. Dyma ychydig o gynnwys y llythyr hwn . . .

Pleser mawr iawn i mi ydyw anfon gair atoch o draethellau Brazil, Deheudir Cymreig y ydym yn galw heddiw yn Rio de Janeiro, ac felly caiff y llythyr hwn ei gludo — yn ddiogel gobeithio — gyda llythyrgod y llong i Brydain.

Da gennyf ddweud ein bod wedi cael mordaith hapus ryfeddol hyd yn hyn, ac mi fyddwn yn cyrraedd Buenos Aires ddydd Mawrth nesaf, bydd gennyf dri diwrnod wedyn cyn cyrraedd adref. Cawsom rai dyddiau poeth dros ben fel y gellwch ddisgwyl tua llinell y cyhydedd lle y mae hi yn boeth ar hyd y flwyddyn.



Rhwng fod y poethder wedi llosgi fy wyneb a'm bod yn gwneud ymosodiad cryf ar y bwydydd, fe fydd golwg mwy borthmonaidd nag erioed arnaf yn mynd adref!

'Rwyf dros bum mil o filldiroedd o Gymru yn awr, ond dyma fy mhofiad heddiw — 'gwelaf a welaf, af fan a fynaf, yno mae fy nghalon, hefo hen gyfoedion, glân-gynnes, dirodres a adewais ar fy ôl,' ac ymhlith y rhai anwylaf o'r cyfoedion hynny yr ydych chwi.

Nis gwn pryd y cafodd Nefydd ei urddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ond mae'r llun ohono yng ngwisg yr Orsedd wedi ei ddyddio yn 1933. Yn ddiddorol iawn tynnwyd y llun yn 'Fotostilliten, Trelew' — mae'n rhaid ei fod wedi mynd â gwisg yr Orsedd efo fo i Batagonia! Gyda'r llun mae'n anfon ei gyfarchion at y teulu ac Elfed (Ffrwd Goch, Brynrefail, wedyn) yn arbennig gan ei fod yntau yn aelod o'r Orsedd.

Dychwelodd i Gymru a mynychu Coleg Diwinyddol Aberystwyth. Bu'n llythyru oddi yno yn 1934. Enillodd radd M.A. hefyd, ac ordeiniwyd ef ym Mlaenau Ffestiniog yn 1935.

Yn ystod mis Awst bob blwyddyn arferai bregethu dros y ffin a chael gwyliau yr un pryd. 'Roedd ym Mhenbedw yn 1930. Dywed iddo ef a Bob, ei gyfaill, fynd i'r 'pictures' i Fanceinion . . .

Gwelsom ffilm o'r enw 'Harmony at Home' ac roedd llawer o hwyl drwyddi ond bod yr 'American twang' bron â chodi'r ddannodd arnaf!

'Roedd yn pregethu yn Oldham y Sul canlynol.

Chwe mlynedd yn ddiweddarach, yn 1936, pregethai yn Oldham ac Ashton-under-Lyne y ddau Sul cyntaf o Awst, gan anfon gair o Benbedw eto. Ym mis Gorffennaf yr un flwyddyn ysgrifennodd o Ruallt, lle'r oedd yn weinidog:

Llawenydd mawr i mi oedd deall eich bod wedi mwynhau a chael bendith o'r bregeth nos Sul o'r blaen yng Ngorffwysfa, Llanberis. Teimlwn innau ryw eneiniaid yn y gwasanaeth hefyd. Iddo Ef ac nid i mi y byddo'r gogoniant.

Yn ystod gwyliau o'r goleg, pan yn aros yn Nhy'n Llain, arferai Nefydd a Maggie fynd ar y stemar bach o Gaernarfon i Frynsiencyn, cael croeso a'u bwydo gan deulu Tŷ Mawr, a byddai Nefydd yn ymweld â'r Parchedig Walters a fu'n byw yn y Wladfa. Mynychai gartref y Parch Bryn Williams, un arall o blant y Wladfa, pan oedd yn weinidog ym

Mwlan, cyn symud oddi yno i Gapel Coch, Llanberis.

Daeth y rhyfel a newid byd, symud cartrefi a'm cenhedlaeth i yn cael eu geni. Flynyddoedd yn ddiweddarach pan oeddwn yn gweithio yn Sir y Fflint, deuthum yn ffrindiau â Liz Roberts o Benybontfawr, Sir Drefaldwyn. Yn rhyfedd iawn clywais ei mam yn sôn am Nefydd Hughes Cadfan. Codais fy nghlustiau — dyma enw o'r gorffennol — enw a glywais ar yr aelwyd ym Mryn Madog, Brynrefail, a chofiais mai ef ysgrifennodd benillion coffa i'm nain. 'Roedd gair uchel iawn gan Mrs Roberts i Nefydd, 'roedd yn meddwl y byd ohono pan oedd yn weinidog arnynt hwy yng nghapel Elim a Llanwddyn.

Pan symudodd Nefydd Hughes Cadfan i Drefnant, Clwyd, deuai i bregethu i gapel y Dyffryn, Llandyrnog, ble roedd fy ewythr a'm modryb — Emrys ac Elizabeth Mary, gynt o Dan y Fron, Dinorwig — yn cadw'r Tŷ Capel. Melys oedd y sgwrsio am yr hen amser yn y Fachwen.

Y cystylltiad teuluol olaf ar bapur yw'r cofnod iddo gymryd rhan yng ngwasanaeth angladdol Maggie Hughes, gynt o Bant Sardis, Dinorwig, ym mis Hydref 1965. Dyma ni'n ôl yn y dechrau — 'roedd hi'n chwaer i Jack Ty'n Llain, lle y cartrefodd Nefydd pan ddaeth o Batagonia.

Cafodd Nefydd Hughes Cadfan ei daro'n wael pan ar gychwyn i'r Eisteddfod Genedlaethol. Bu farw rai blynyddoedd yn ôl bellach a bu Enid, ei wraig farw eleni yn Nhrefnant.

LLANRUG

Chworiydd Capel y Rhos: Cynhaliwyd Gwasanaeth y Pasg yn festri'r Capel Mawr bnawn lau, Mawrth 31. Hwn oedd cyfarfod cyntaf Cymdeithas y Chworiydd ers i gapeli Presbyteriaidd Llanrug uno yng Nghapel y Rhos.

Miss Megan Humphreys a gymerodd y rhan ddechreuol, a chafwyd sgwrs gan Mrs Megan Williams, y Llywydd, gan sôn am ei phrofiadau ar ei hymwelid â gwlad yr Iesu. Cymerwyd rhan hefyd gan Mrs A. Smith, Mrs Nansi Roberts, Mrs Myfi Roberts, Mrs Mary Roberts, Mrs Helen Parry a Mrs Lovatt.

Ysgol Gynradd Llanrug: Cafodd Bl. 1 a 2 berfformiad o ddrama 'Melangell' gan gwmni'r Frân Wen fel cychwyn i'w gwaith thema y tymor hwn.

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth criw o Bl. 6 i ffilmio ar gyfer y rhaglen 'Cracabant', rhaglen yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored. Roeddynt wedi mwynhau eu hunain er fod y tywydd yn wlyb.

Cynhaliwyd cystadleuaeth pêlrwyd Ysgolion Gwynedd yng Nghanolfan Arfon ar ddydd Gwener, 15 Ebrill. Aeth tîm o'r Ysgol i gystadlu a gwnaeth pawb ei waith yn dda iawn. Braff oedd gweld bechgyn yn y tîm y tro hwn.

Enillwyr Clwb Cyfeillion am fis Ebrill — fe dynnwyd chwech gan ei bod y tro olaf am y flwyddyn hon — 1, Lucy Stevens, Alandur, Crawia; 2, Iwan Rhys Williams, 19 Glanffynnon; 3, L. D. Williams, Bryn Derwen; 4, Carys Hamer, 11 Minffordd; 5, Gareth Eifion Jones, 36 Glanffynnon; 6, Catherine Jones, Llys Eiddon. Cofiwch ei bod yn amser ailymuno am flwyddyn arall.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i'r plant fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir — 1, Elin Dafydd Owen, dawnsio gwerin a dawnsio disgo unigol; 1, Sioned Llŷr Morris, unawd 10-12; 1, Grŵp dawnsio disgo. Pob hwyl i chi yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau, ac i'r criw cyflwyniad dramatig.

Cafodd y criw genethod dawnsio disgo wahoddiad i ymddangos ar raglen 'Uned 5' ar ôl eu llwyddiant. Rydych yn mynd yn enwog genod! Daliwch ati.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 8 Ebrill, croesawyd aelod newydd i'r gangen, Mrs Ffion Rowlinson o Gwm-y-glo. Braff oedd gweld Mrs Beryl Thomas wedi gwella yn dilyn triniaeth yn yr ysbyty.

Diolchwyd i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd i'r Caffi yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, gwnaed elw sylweddol o £213.

Croesawodd y Llywydd, Mrs Meryl Green, siaradwr y noson, sef Mrs Nia Elis Williams sy'n enedigol o Drawsfynydd ond sydd bellach yn byw ym Methesda. Gweithiwr Cymdeithasol gyda Cyngor Sir Gwynedd ydyw ac yn gweithio gyda troseddwr yn eu cymunedau a'r carchardai. Diolchwyd iddi gan Menna Williams.

Diolchwyd i Mair, Mary a Nan am wneud y baned. Enillydd y raffl oedd Gwenda Roberts.

Cyfarfod Blynyddol fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Fawrth, Mai 10fed, felly — dowch yn llu!

Plaid Cymru: Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug nos Fercher, Ebrill 13, yn y Sefydliad Coffa, gyda Phyllis Ellis yn llywyddu. Croesawodd y llywydd y gŵr gwadd, Richard Morris Jones, Caernarfon, ynghyd â'i briod Helen Gwyn, Maer Tref Caernarfon. Cafwyd anerchiad amserol a diddorol gan y siaradwr yn olrhain ei flynyddoedd o gysylltiad â Phlaid Cymru gan bwysleisio pwysigrwydd teyrngarwch i'r Blaid ym mhob ffordd ac yn arbennig felly yn y dyddiau yma sydd mor llawn cyffro a gweithgarwch. Diolchodd y llywydd i'r siaradwr a chyflwynodd flodau i Helen Gwyn.

Cydymdeimlwyd yn ddiffuant iawn â Hefin Jones, Pant Mwyn, a'r teulu, yn eu profedigaeth o golli mam a nain; a hefyd â Mrs Helen Roberts, Hedd y Mynydd ac Islwyn Roberts, 3 Bryn Moelyn, yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid.

Llongyfarchwyd Raymond Jones ar ei briodas gan ddymuno iddo ef a'i briod pob dedwyddwch.

Llongyfarchwyd Evan a Helen Parry ar ddod yn daid a nain i ail ŵyr bychan a'r un modd i Dai a Megan Williams ar gael ail wyres fach.

Llongyfarchwyd Gwenan Mai, Gregynog, ar ennill ysgoloriaeth mewn cerddoriaeth ar gyfer yr hydref yng Ngholeg Cerdd Manceinion.

Anfonwyd cyfarchion am adferiad llwyr a buan i'r Cynghorydd Emyr Tomos yn dilyn llawdriniaeth; ac anfonwyd cofion hefyd at aelodau sydd heb fod yn dda yn eu cartrefi; ac i Miss Meirwen Roberts, Ganllwyd, wedi ei damwain.

Atgoffwyd ni o'r gofyn am gefnogaeth gan yr aelodau i weithio ar gyfer etholiad Ewrop ym mis Mehefin a diolchodd y llywydd i'r rhai o'r gangen fu'n helpu ar lannau Dyfrdwy yn ddiweddar. Penderfynwyd gohirio Cyfarfod Blynyddol y gangen o Fehefin 8fed tan nos Fercher, Mehefin 29ain, yn y Sefydliad Coffa, fel arfer.

Bydd Evan, Helen ac Einir Parri, Ceunant, yn trefnu'r Helfa Drysor ar ein cyfer ar nos Fercher, Mai 11eg. Bydd manylion ar bostgeri yn y pentref cyn bo hir. Gofynnir i chi anfon eich enw a'ch archeb bwyd i Einir Parri erbyn dydd Mercher, Mai 4ydd, ar 650321. Edrychwn ymlaen at groesawu aelodau a ffrindiau fel arfer ar y noson yma.

Enillwyr diweddaraf y Clwb Cant yw — mis Mawrth: 1, Dyfan Roberts, Melin Crawia; 2, Berwyn P. Jones, 59 Glanffynnon. Mis Ebrill: 1, June Jones, Llandwrog; 2, Dafydd Arfon Jones, Minffordd.

Diolch: Dymuna Gwion ap Llwyd, Glasgoed, Llanrug, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

**MAE ANGEN
GOHEBYDD I
BENTREF LLANRUG
O HYD**

ECO'R IFANC

gan blant Ysgol Dolbada

YDYCH CHI'N ADNABOD Y PENTREFI?

1. BERSIANLL

4. GCOLWYM

2. NNDEOILEI

5. LGLRUAN

3. NEAPRNTIS

6. GDNOWIR

7. PSENURAUWANI

Pa bryd mae'n anlwcus i gael cath ddu yn e
Pan ydych yn lygoden!

Beth ydych yn galw deinosor hefo un lygad?
Dwiwthinchisorys!

ATEBION
LLANBERIS, DEINIOLEN, NANT PERIS, CWM Y GLO,
LLANRUG, DINORWIG, PENISARWAIN.

ENWAU STRYDOEDD LLANBERIS

CAMBRIAN
TY DU
VICTORIA
YR WYDDFA
NEWTON

GOODMAN
CAPEL COCH
LLAINWEN
SIARLOT
TYRNER

Mae enwau deg o strydoedd Llanberis wedi eu
cuddio yn y blwch llythrennau. Fedrwch chi ddod
o hyd iddynt ?

N	E	W	T	Y	D	U	U	F	V	C
V	I	C	T	O	R	I	A	L	I	I
H	C	O	C	L	E	P	A	C	C	M
T	L	G	O	O	D	M	A	N	G	N
Y	A	R	V	I	C	F	O	R	A	E
R	S	T	O	R	D	I	B	I	R	W
N	H	O	R	D	N	R	R	A	O	T
E	G	L	Y	W	I	B	I	V	T	O
R	A	W	E	N	M	V	I	A	C	N
D	R	L	L	A	I	N	W	E	N	V
Y	C	R	C	S	I	A	R	L	O	T

- 1 Brown
- 2 Melyn
- 3 Coch
- 4 Glas
- 5 Du
- 6 Gwyn

Cnoc cnoc!
Pwy sy`na?
Banana!
Banana pwy?
Cnoc cnoc!
Pwy sy`na?
Banana!
Banana pwy?
Cnoc cnoc!
Pwy sy`na?
Oren!
Oren pwy?
Oren banana na eto!



arn

ch dilyn?


JÔC

m fod Mike Walker,
olwr Everton yn prynu
steri?

mag ofn icddo frifo wrth
ddisgyn i'r adran
gyntaf!!

Da chi di clywed y joc am y bara?


Naddo!
Mae'n stêl!



Planedau

Mae'r planedau yma wedi eu cymysgu.
Gweithiwch allan enwau'r planedau. Rhwch eich
atebion yn y bocs.

1. rhecrem -
2. neerwg -
3. raedad -
4. wrhatm -
5. aui -
6. wandrs -
7. nsrwaw -
8. foniein -
9. tluop -



Mercher, Gwener, Ddaear, Mawrth, Iau, Sadwrn, Wranws, Neifion, Pluto.

ATEBION

Cwis chwaraeon.

1. Pwy wnaeth ennill cwpan y byd yn 1992?
2. Pwy sydd wedi sgorio y mwyaf o goliau yn yr uwch gyngrair?
3. Pwy wnaeth ennill Wimbledon yn 1993?
4. Pwy wnaeth ennill y grand prix yn 1993?
5. Pwy wnaeth ennill marathon Llundain y flwyddyn yma (dynion)?

Atebion 1. Gorllewin yr Almaen. 2. Andy Cole. 3. Pete Panpras. 4. Alain Prost. 5. Dionicio Ceron.

Cnoc Cnoc!

Cnoc Cnoc!

Pwy sydd yna?

Pam.

Pam pwy?

Pam na rowch chi gloch
ar y drws yma!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Llongyfarchiadau:

Priodas: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Jason Anderson, Bodarfon ar ei briodas â Wendy o Gaernarfon. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Llwyddiannau cerddorol: Llongyfarchiadau i Manon Evans, Arfryn, ar lwyddo yn arholiad canu'r piano Gradd 4; ac i Lowri Edwards, Melin-y-wig, ar lwyddo yn yr arholiad Gradd 3. Enillodd Ffion Edwards, Melin-y-wig a Karen Jones, Tan-y-waun, anrhydedd yn arholiad theori Gradd 3. Da iawn chi genod, daliwch ati.

Genedigaeth: Llongyfarchwn Nesta a Meical Roberts, 3 Stad Glynafon, ar enedigaeth Cai Llywelyn, brawd bach i Catrin Angharad.

Llongyfarchion hefyd i Karen a Dewi Morris, Llys Ifor, ar enedigaeth eu mab bychan, Gafin John, ŵyr cyntaf i Ron a Meira Turner, Colfryn, a gor-ŵyr i Mr a Mrs Evan Hughes, 3 Tref Eilian.

Ganwyd merch fach, Eira Rhiannon, i Teresa a Gareth Humphreys, Cae Gwyn, chwaer fach i Ceridwen a Tegwen.

Ganwyd mab bychan, Luke, i Marie a Brian, Bro Waun, ŵyr bach i Mr a Mrs Don Roberts, Bro Waun.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchwn Hefina Jones, Bron Eifion, ar gyrraedd ei deunaw oed a dymunwn

pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn; Mrs Dilys Williams, Llys Seibiant; Mr Emyr Evans, Cae Ffynnon; a Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris, adref o'r ysbyty.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Carys Owen, Glyn Awel; Mrs Elaine Parry, Bro Waun; a Mr Stanley Williams, Cefn Coed, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, gan ddymuno adferiad iechyd buan iddynt.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Kenneth Leathley Jones, Cefn-y-waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad; ac i Mrs Dor Roberts, Dwyros, yn ei phrofedigaeth o golli brawd.

Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Mrs Mary Lloyd Jones, Bryn Tawel, a fu farw yng nghartref Plas Pengwaith, Llanberis.

Yn dawel yn Nhyddyn Elan, Llanrug, bu farw Miss C. E. Williams, Is-Eilian gynt. Roedd Miss Williams yn un o bentrefwyr hynaf y Waun. Cydymdeimlwn â Mr G. Williams, Monfa, Teras Eilian, yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer.

Tymor yr Arholiadau: Mae tymor yr arholiadau wrth y drws unwaith eto ac fe ddymunwn yn dda i bawb sy'n sefyll arholiadau ysgol a choleg.

Dymunwn yn dda hefyd i nifer o'n pobl ifanc sydd wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau gwaith

iddynt eu hunain. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich gyrfa newydd.

Gwellhad: Dymunwn wellhad buan i Mrs Elena Jones, Hafod y Rhug ar ôl iddi gael damwain yn ei chartref; ac i Robat Williams, Gwernydd, a anafodd ei droed yng nghae Alffi Cynrant Lodge.

Ymweliad â'r Iseldiroedd: Dymunwn yn dda i Catherine Hughes, Dol Afon, yn ystod yr wythnosau nesaf pan fydd yn ymweld â'r Iseldiroedd gyda'i gwaith.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth: £40: Mrs M. B. Davies, Bryn Eithin; £25: Mr J. H. Edwards, Aneddle;

mynd i nyrsio a wnaeth Bet. Treuliodd ugain mlynedd yn Llanbedr Hall, Rhuthun, yn un o dîm yr enwog Dr H. M. Davies, yna i nyrsio yn Wrecsam a Rugby. Wedi iddi ymddeol aeth i fyw i Gaergybi ond treuliodd lawer o'i hamser yn y Waun gyda Mwynwen ei chwaer. Ymaelododd yng nghapel Hyfrydle, Caergybi, a bu'n hynod o ffyddlon yno ac yn aelod gwerthfawr o'r capel.

Cynhaliwyd ei harwyl yn Amlogsgfa Bangor ar Fawrth 30 Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Ifan John Jones, Moelfre a'r Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn.



Yr Urdd: Llongyfarchiadau mawr i aelodau parti'r gân actol. Yn dilyn llwyddiant yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd byddant yn awr yn cystadlu, a chynrychioli Sir Eryri, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nolgellau ar ddiwedd mis Mai.

Llongyfarchiadau a diolchir i'r ddwy hyfforddwraig, Anti Sylvia ac Anti Jina, am weithio mor galed gyda hwy. Mae wedi talu cael yr holl ymarferion, y 'gel gwallt' a'r lliw coch llachar! Pob lwc ichi yn Nolgellau.

£10: Mrs R. Owen, Bryn Môr.

Merched y Wawr: Ymweliad â gweithdy Cefyn Burges ym Mharc Glynllifon wnaeth yr aelodau ar nos Iau, Mawrth 24, dan lywyddiaeth Cadi Jones. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Cefyn. Bu'n dangos y gwaith mae wedi'i wneud ar gyfer Castell Cyfarthfa, ger Merthyr. Hefyd y gwaith comisiwn mae wedi ei wneud ar gyfer yr Amgueddfa Brydeinig. Diolchwyd iddo ar ran y gangen am ei groeso gan Gill Brown.

Disgwyliwn Mr Geraint George, Brynrefail, atom y mis nesaf.

Marwolaeth: Yn ei chartref yng Nghaergybi ar Fawrth 26, bu farw Miss Elizabeth Williams yn 80 mlwydd oed. I bobl y Waun, Bet Graig Lwyd, neu Bet Tref Eilian. Hi oedd yr olaf o deulu'r Graig Lwyd y cofiwn amdanynt fel Jennie, Maggie, Robert Arthur, William Llewelyn, Richard Bleddyn, Eurgain, Mwynwen a Gwynedd. Collwyd Richard Bleddyn yn 1918 yn ffrainc ac yntau ond yn 19 mlwydd oed, ac mae'r teulu i gyd wedi mynd bellach.

Wedi iddi adael Ysgol Caernarfon

Y galarwyr oedd ei nithoedd Mrs Eirlys Hughes, Llangoed; Mrs M. Griffith, Deiniolen; Mrs V. Jacques, Barrow; a'i neiaint Mr Bleddyn Williams, Caernarfon; Mr Haydn Jones, Waunfawr a'u teuluoedd. Y cludwyr oedd Emyr a Glyn Llewelyn Gruffudd, Deiniolen; Dylan ac Eilir Jones, Waunfawr.

Teimlir chwithdod mawr ar ei hôl gan yr holl deulu gan y bu i Anti Bet fod yn gymorth ac yn gysur iddynt i gyd ar hyd y blynyddoedd. Heddwch i'w llwch.

Penillion er coff annwyl am Miss Bet Williams, Caergybi gan ei ffrind Marie Roach

Dim ond gwên a gefais ganddi
Ar ryw noson oer a gwlyb,
Methu siarad heno, meddai,
Methu codi na dim byd.


Paidiwc poeni dim am hynny,
Meddaf wrthi yn llawn ffydd;
Fe gawn sgwrs fach yn y bore,
Ond yn wir nid felly bu.

Daeth y Meddyg Mawr o gwmpas
Rhwng hanner nos a thri
Ac fe gipiodd yn ei freichiau
Un oedd annwyl gennym ni.



Llwyddiant yn Sioe Nefyn: Dydd Llun y Pasg daeth llwyddiant i Mair Williams, Bryn Difyr, a'i moch cwta. Daeth i'r brig yn y gystadleuaeth i'r moch cwta ac yna cafodd llwyddiant yn nosbarth anifail anwes i blant. Derbyniodd Mair a 'Blaci' (y nochyn cwta) darian hardd i'w chadw am flwyddyn.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler' Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 650291

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

CABS LLANRUG



C'fon 675951

**Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos**

Cydymdeimlo: Dymuna ardalywyr y Waunfawr gydymdeimlo yn gywir iawn â Mrs Winnie Jones, Gwenda, Alvona, a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli Gwyrfaï, priod, tad a thaid oedd mor annwyl ganddynt.

E. Gwyrfaï Jones. Roedd E. Gwyrfaï Jones yn enedigol o Graianfryn, Waunfawr. Bu'n byw am nifer o flynyddoedd yn y Gwyndy (Siop Chips) a Gorwel, cyn iddo ef a'i briod symud i fyw i Brestatyn un mlynedd ar bymtheg yn ôl. Bu farw yn dawel yn Ysbyty Llanelwy yng nghwmni ei deulu Bu yn briod ffyddlon a charedig i Winnie am 58 o flynyddoedd, tad tyner i Gwenda ac Alvona, tad yng nghyfraith i Ray a Dewi, taid hoffus i Helen, Matthew, Heather a Nia, a brawd annwyl i Annie, Tydfil, Doris a Now.

Bu'r angladd ar Fawrth 31 gyda gwasanaeth yng nghapel Rehoboth, Prestatyn, ac yna yn Amlogsgfa Bae Colwyn, gyda'r Parchedigion Ifan Roberts a leuan Lloyd yn gweinyddu. Rhoddwyd blodau gan y teulu yn unig, a derbyniwyd arian yn hael at yr Achos yn Rehoboth er cof am Gwyrfaï.

Teyrnged gan

Y Parchedig Ieuan Lloyd, Prestatyn Edward Gwyrfaï Jones oedd ei enw yn llawn, ond fel 'Gwyrfaï' yr adwaenid ef gan ei gydnabod. Wedi i'r 'daith ddaearol' ddod i'w therfyn y mae ei enw yn sicr yn dod a ffrwd o atgofion i gof ei gyfoeswyr yn ardal y Waunfawr.

Wrth inni gofio am y chwarelwr hwn y mae'n dda inni gofio yr un pryd am ddycnwch chwarelwyr ei genhedlaeth ef.

Gŵr y filltir sgwâr oedd Gwyrfaï Jones ond llanwodd y filltir honno trwy gyfrwng yr hyn oedd ef ei hun. Os y bu erioed ŵr 'true to nature' chwedl Wil Bryan, Gwyrfaï Jones oedd hwnnw. Nid oedd byth yn cario ei grefydd ar ei lawes. Yr oedd yn enghraifft glir o gynnyrch diwylliant y chwarel — diwylliant yn ei ddyddiau ef oedd a'i ganolbwynt yn y Capel.

Wedi iddo ef a'i briod, Winnie Jones, symud i Brestatyn yn 1978 parhaodd y capel i fod yr un canolbwynt iddo.

Cân y Capel; Cenadwri y Capel a Chymdeithas y Capel oedd ei hyfrydwch ef.

Y mae cofio am Gwyrfaï yn ein huniaethu â'r afon yn y Waunfawr ac â'r dyffryn sy'n dwyr yr un enw. Yn naturiol y peth cyntaf i'w gofio am bob afon yw ei tharddiad. 'Roedd Gwyrfaï Jones yn ymwybodol iawn o'i darddiad yntau. Yn wir roedd yn falch o'i etifeddiaeth.

Yr ail beth am yr afon yw ei bod yn llifo ar ei thaith — weithiau yn fyrlymus dros y cerrig, ac weithiau yn ymddolennu yn fwy hamddenol. Mae yna ddyfnder hefyd i'r afon sy'n llifo yn araf. Ni fu Gwyrfaï Jones heb 'droeon yr yrfa' ond ymlaen yr aeth ar ei daith; ac ar adegau felly y profodd ef ei ddyfnder.

Y mae pob afon rywdro, hyd yn oed wrth uno ag afon arall, yn cyrraedd y môr. Dyma'r adeg y bydd yn llifo'n dawel. Dyma hefyd yr amser y daw llanw'r môr i'w chyfarfod. Yr oedd Gwyrfaï Jones yn ymwybodol bod llanw'r môr yn dod i'w gyfarfod ac i'w groesawu yn ystod yr wythnosau diwethaf ar y daith. Iaith yr 'iechydwrfaeth sy'n llifo fyth i'r lan' oedd ei iaith ef wrth ddod i derfyn ei yrfa ddaearol.

Un o linellau Gerallt Lloyd Owen yn ei awdl i'r 'Afon' yw hon: 'Er yn hen, yr un o hyd'. Yr un o hyd oedd Gwyrfaï Jones — fel yr afon yr oedd yn gyfarwydd â hi.

Un o'r gwerinwyr diwylliedig oedd ef, a bydd yr atgofion amdano yn aros yn gysegredig iawn. Braint oedd ei adnabod.

Cydymdeimlwn â'i anwyliaid yn eu galar.

Diolch: Dymuna Mrs Parry, Clydfan, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, anrhegion, a'r dymuniadau da a dderbynion ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch o galon i bawb.

Adref o'r Ysbyty: Dymunwn wellhad buan i Deian Elfryn, Coed Gwydryn, wedi iddo dderbyn triniaeth i'w benglin yn yr ysbyty.

Yn yr Ysbyty: Anfonwn ein cofion at Heulwen Jones, Cynant Lodge, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

DRAENOG



Rhyw ffermwraig wedi noson reit joli
Gafodd ddamwain ar y ffordd tua'r gwely
'Wel diawl,' medda John,
Gan fygrwth ei ffôn
'Eitha gwaith am gael bolriad o'r Bailey!

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

CÔR MEIBION DINAS BANGOR Apêl am Aelodau Newydd

Y mae Côr Meibion Dinas Bangor yn paratoi ymgyrch i geisio aelodau newydd. Bwriad yr ymgyrch yw ceisio chwyddo rhif y Côr i hanner cant os yn bosibl. Ar hyn o bryd deugain yw rhif yr aelodaeth. un o'r rhesymau am yr ymgyrch yw ceisio cael diddordeb ymysg dynion mewn canu mewn côr meibion. 'Nid oes angen bod yn ganwr operatig i fod yn aelod o gôr meibion,' meddai James Griffith, arweinydd y Côr. 'Y peth pwysig yw ffyddlondeb, llais go-lew wrth reswm, a brwdfrydedd. Y mae bod yn aelod o gôr meibion yn brofiad arbennig gan fod yno gymdeithas wych a chyfle i fwynhau canu a rhoi cryn bleser i eraill mewn cyngherddau,' meddai'r arweinydd.

Yn ystod mis Mawrth bu'r Côr yn ffodus o gael cyfle i ganu hefo corau y Penrhyn, Caernarfon a'r Traeth mewn cyngerdd arbennig i ddathlu canmlwyddiant Prifysgol Cymru yn Neuadd Pritchard Jones ym Mangor. Hefyd buont yn Llundain fel rhan o gôr o fil o leisiau yn canu yn Neuadd Albert ac fe ddaeth nifer dda o ardal yr Eco i gefnogi'r Côr, ac wrth gwrs i fwynhau y profiad ardderchog o wrando ar ganu mor wefreiddiol mewn lle mor arbennig.

Swyddog gyda chyfrifoldeb am gael aelodau newydd yw Myfyr Parry, Rhiwena, Nant y Glyn, Llanrug, rhif ffôn (0286) 676512. Dylai unrhyw un â diddordeb mewn ymaelodi gysylltu â Myfyr neu unrhyw aelod arall o'r Côr. Bydd y Côr yn ymarfer bob nos Fercher am 7.15 o'r gloch, yn Ysgol Glanadda, Bangor.

Ym mis Gorffennaf byddant yn croesawu côr o Awstria i Fangor ac yn cynnal dau gyngerdd gyda hwy, yna yn ystod misoedd yr haf bydd y Côr yn canu i nifer o Americanwyr fydd yn aros ym Mangor. Y flwyddyn nesaf bydd yr aelodau yn teithio i Toronto, Canada, am naw diwrnod; yna i Awstria yn 1996. Os am ymaelodi rŵan yw'r amser!

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Dathlu'r Pasg: Cynhaliwyd dau wasanaeth arbennig iawn yn y Ganolfan yn ystod Gŵyl y Pasg. Roedd y gwasanaeth ar Sul y Palmwydd yn y prynhawn yng ngofal aelodau Clwb Hwyl Hwyr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Glyn Tomos a chafwyd sawl eitem gan y plant gyda Miss Olwen Roberts yn cyfeilio. Cafwyd darlleniadau gan Miss Marian Jones, Mrs Caren Jones a Rachel Morris ac roedd y Parchedig Tegid Roberts yn bresennol i roi annerchiad byr ac amserol iawn ar arwyddocad y Groes a'r Atgyfodiad. Daeth cynulleidfia deilwng ynghyd i goroni'r cyfan, ac fe wnaed gasliad o £20 tuag at waith Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac yn arbennig i'r Parchg Tegid Roberts am ei rodd ariannol anrhydeddus dros ben i'r Clwb. Dilynwyd y gwasanaeth gan luniaeth ysgafn a oedd wedi ei baratoi gan Mrs Hannah Roberts a Miss Marian Jones, ac fe gyflwynwyd Wŷ Pasg i bob un o'r plant.

Ar brynghawn Gwener y Grogolith daeth criw ffyddlon at eu gilydd, yn blant ac oedolion, ar gyfer yr orymdaith drwy'r pentref gan gario'r Groes. Wrth lwc fe ddaliodd y tywydd yn sych. Cynhaliwyd gwasanaeth syml yn y Ganolfan am 3 o'r gloch o dan arweiniad Mr Glyn Tomos, gyda Miss Olwen Roberts wrth y piano, ac fe ddarllenwyd hanes y Croeshoeliad gan Rachel

Morris. Dilynwyd y gwasanaeth gan luniaeth ysgafn ac eleni eto fe brofwyd prynhawn bendithiol dros ben.

Hwyl Haf: Gobeithio y cawn dywydd braf yn ystod y misoedd nesaf gan y cynhelir Hwyl Haf eleni ar brynghawn Sadwrn, 2 Gorffennaf, yn yr Allt Ddu. Felly, nodwch y dyddiad er mwyn i ni fel pentrefwyr, gyda chyfeillion o bentrefi eraill y fro, ddod at ein gilydd i gael tipyn o hwyl. Os dymunwch gynorthwyo gyda'r gwaith trefnu, neu fod gennyd syniadau ffes a newydd i'w cynnig ynglŷn â gwahanol weithgareddau, yna bydd Mr Glyn Tomos yn falch o glywed gennych.

Diolchiadau: Dymuna Eileen a Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, ddiolch o galon ar ran holl deulu y ddiweddar Miss Ellen Thomas, Buarth Newydd, am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth sydyn o golli eu modryb annwyl ar 15 Mawrth.

Eglwys St. Mair: Eisoes mae'r Adroddiad Ariannol wedi dod i law ac mae'r diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ariannol i'r Eglwys yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Cynhaliwyd Cymun y Pasg ar fore Sul, 3 Ebrill, o dan arweiniad y Parchg Tegid Roberts. Siomedig oedd nifer y rhai oedd yn bresennol o gofio ei bod yn ofynnol i bob aelod Eglwysig gymuno ar Sul y Pasg. Wedi dweud hynny cafwyd gwasanaeth gwir deilwng o ysbryd buddugoliaethus y Pasg.

Diolch i Mrs M. Fleming am lunio rhestr blodau'r allor am y flwyddyn. Rhoddir blodau'r allor ar Suliau, Mai 1af a'r 8fed gan Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir; a Suliau Mai 15fed a'r 22ain gan deulu Creigle gynt. Diolch ymlaen llaw iddynt hwy.

Bellach mae holl gasgliadau blychau'r Grawys wedi dod i law a byddwn fel Eglwys yn anfon £33 ymlaen tuag at waith Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Clwb Hwyl Hwyr: Eisoes mae'r Clwb wedi ailagor ers gwyliau'r Pasg. Edrychir ymlaen at dymor difyr pryd y gobeithir mynd allan am dro o gwmpas y pentref gyda'r plant. Mae'n fwriad hefyd i drefnu trip yn ystod y tymor yma ac fe fydd mwy o fanylion am hyn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

Caernarfon 673513



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Cadw'n Heini: Bydd cyfarfodydd Cadw'n Heini yn ailgychwyn nos Fercher, Mai 4ydd, o 8.30-9.30 p.m. yn y Neuadd Gymuned. Croeso cynnes i bawb.

Pwyllgor Neuadd: Mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned, tynnwyd Clwb Cant mis Mawrth. Yr enillwyr oedd: 1, Nansi Jones, Meillionydd; 2, Victor Jones, 11 Bryntirion; 3, Annie Hughes, Cae Hywel.

Nos Fercher, Ebrill 20fed cynhaliwyd cyngerdd gyda Hogia'r Wyddfa yn y Neuadd Gymuned am 7 p.m. Cafwyd eitemau gan aelodau'r Urdd, plant yr Ysgol Gynradd ac Uwchradd. Dymunir diolch yn ddiffuant i Hogia'r Wyddfa a phawb a gymerodd ran yn y cyngerdd arbennig hwn. Diolchir i'r rhai fu'n hyfforddi'r plant a'r bobl ifanc. Diolchir i bawb fu'n gwerthu a phrynu tocynnau.

Gweithgaredd misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf fydd raffl fawr. Bydd tocynnau a llyfrau raffl ar werth

gan aelodau'r pwyllgor.

Ysgol Sul Bosra: Dyma adeg prysur i aelodau'r Ysgol Sul gan eu bod yn cymryd rhan mewn dwy Gymanfa a hynny o fewn wythnos i'w gilydd. Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr yng Nhapel Jerusalem, Nant Peris, ddydd Sul, Ebrill 17. Cynhaliwyd Cymanfa'r Wesleaid yn Seiloh, Tregarth, ddydd Sul, Ebrill 24ain. Cyflwynwyd stori 'Y Botel Fach Werdd' ar lafar ac ar gân gan y platn. Bydd cyfle i'r plant drafod a phleidleisio eu trip blynyddol a cheir y manylion yn y rhifyn nesaf!

Cymerodd tîm pêl-droed o aelodau'r capel ac aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen ran yng ngweithgareddau Chwaraeon Ysgolion Sul Arfon ym Mangor. Diolchir i Dyfed Jones a Beryl Jones am hebrwng yr hogia i Fangor.

Llongyfarchiadau i Heddwyn ac Lrfon Hughes, Waun, ar enedigaeth eu merch fach. Pob bendith i chwi fel teulu.



Hogia'r Wyddfa ar lwyfan yr Ystafell Gymuned.

DRAENOG

Digwyddodd embaras i un o'n haelodau:
A wnaethoch gofio troi'r cloc erbyn y Sul?
Os naddo, mi oeddech mewn tipyn o helbul
'Run fath a'r wraig aeth i'r capel erbyn dau:
Heb sylweddoli ei bod hi'n dri.
'Roedd yr Ysgol Sul ar ddibennu,
A chafodd hithau sioc —
Gan iddi anghofio troi y cloc.

Pwy tybed oedd hon
o Ddeiniolen?



SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. — 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig



Parti recorders yr Ysgol Gynradd fu'n rhannu llwyfan â Hogia'r Wyddfa yn ddiweddar.

Lle da i fagu anifeiliaid yw'r pentref arbennig hwn gan i Erin ac Eifion Harding gipio llu o wobrau gyda'u defaid a tharw du Cymreig, Michael Jones, Perthi, yn cipio gwobrau am y tarw gorau yn Sioe Llŷn. Llongyfarchiadau i chwi a'r anifeiliaid!

Gwellhad: Wedi hirlwm gaeaf fe ddaeth y tywydd braf a gobeithio ei fod yn gwneud i bawb sy'n sâl yn y pentref deimlo'n well. Wedi derbyn eu llawdriniaethau mawr yn Ysbyty'r Brifysgol yn Lerpwl da yw deall fod Dylan a Leslie yn ddigon cryf i fynd allan am dro unwaith eto.

Gobeithio fod Eileen Thomas, Bron y Gaer, yn dal i wella wedi ei thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch: Dymuna Leslie a Dylan, Meillionydd, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd, y llu cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd. Diolchir i bawb fu'n ymweld â hwy tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i Staff Cyngor Arfon am eu ffyddlondeb a'u haelioni ac i'r Dr Sara Webster, gynt o Gaeathro, am ymweld â hwy ac am ei geiriau doeth a charedig.

I Dylan a Leslie: Derbyniwyd pum englyn i'r achlysur arbennig hwn, sef rhodd o aren gan Leslie i'w fab Dylan:

Daioni gŵr di-hunan, — ei aberth
Rydd obaith i'r egwan
Wele'n rhodd roi perl yn rhan,
Hyn o dâl er mwyn Dylan.
(Ifor Baines a Huw Pierce Jones)

Ail einioes o'r trawsblannu — o'i aberth
Daeth gobaith y tyfu
I'w fab, gwyrrth achubol fu
Hanes ei dad yn rhannu.
(Arfon Huws, Bwlchtocyn)

Cronfa Haematoleg: Cynhaliwyd Cymanfa Ganu, nos Sul y Pasg yn Eglwys Santes Helen am 7 p.m.

Arweinydd y gân oedd Arwel Jones a'r organyddes oedd Mrs Hefina Jones. Cafwyd eitemau hyfryd gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Diolchwyd i bawb, am Gymanfa o naws arbennig, gan Phylis Elis. Gwnaed elw o £78.

Nos Lun, Ebrill 18fed, cynhaliwyd noson 'Impressions' yn y Neuadd Gymuned am 7.30 p.m. pryd y cafwyd cyfle i brynu teganau, gemau a llestri o bob math. Trefnwyd raffl a mwynhaodd pawb banded o de a theisen.

Pob lwc: Gyda'r arholiadau wrth y drws i nifer fawr o'n hieuenctid, dymunir pob llwyddiant i chwi, boed mewn ysgol neu goleg, yn ytod y misoedd sydd i ddod.

DRAENOG

Ar ôl clywed fod Richard Branson a'i gwmni wedi prynu'r Seiont Manor Hotel, a'r rheini dros y tymhorau diwethaf wedi bod yn noddî timau pêl-droed Llanrug, teg gofyn mewn faint o bicyl fydd y Clwb y tymor nesaf yn gorfod rhoi unarddeg o 'virgins' ar y cae.


MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

'DAU LAW DAN LWYN'

gan Y Gwalch

Er craffu i'r brigau fel potsiar o'r iawn, fedrwn i yn fy myw weld amlinellad o aderyn yn unman. Yn sydyn ffrwydrodd un allan o lwmp o eiddew a thaniodd Daphne y Purdey ddwywaith, nes bod yr holl goed yn diasbedain. Syrthiodd yr aderyn i rhyw lwyni a chawsom drafferth i ddod o hyd iddo, ond dath i'r golwg yn y diwedd ac yr oedd yr eneth wedi cael teyrnas.

Roedd fy meddwl i fodd bynnag ar bethau eraill: dychmygwn y Sgweiar yn eistedd o flaen ei dân coed yn darllen y *Tatler* ac yn neidio ar ei draed wrth glywed yr ergydion, neu'n waeth fyth, McIntosh yng nghlydwch ei fwrthyn yn sodro ei esgidiau mawr am ei draed, ac yn gollwng yr hen gi mawr hwnnw fyddai'n edrych weithiau fel pe bai arno frys rhoi rhywun ar draws ei geg.

Gyda hynny gwiredwyd fy nychmygion. Roedd rhywun yn rhedeg yn y coed y tu ôl i ni, a chythraisi i fraich Daphne a'i thynnu o lannerch olau i gysgodion llwyni, ac ar hynny dyma lais yn galw...

Coom oot ye rascal, or would ye no like some pellets in yer arse?

Taflodd Miss Daphne y Purdey i ganol rhyw fieri a rhoddodd sgwd i mi yn erbyn coeden, ac ar yr un pryd cododd gwcwll fy nhôt ddyffil am fy mhen nes fy mod yn edrych yr un fath ag un o'r Brodyr Duon, a chofleidiodd fi'n dwym. Yna yn dawel gofynnodd:

Chi sydd yna Mr McIntosh. Oes 'na rhywbeth o'i le?

'O... y... Miss Daphne,' meddai hwnnw, yn amlwg wedi cael braw. 'A Mr Pound. Wyddwn i ddim mai chi oedd yna. Mae'n ddrwg gen i darfu amoch chi, ond roeddwn i ar ôl potsiars. Glywsocch chi ergydion? Na. Wel, nos da 'te.'

Ar ôl i sŵn ei draed ddiplannu yn y coed gollyngodd Miss Daphne ei hun arnaf a lladd ei hun yn chwerrthin. Ond yr oeddwn i erbyn hynny yn credu fy mod wedi cael gwerth fy mhres a mwy beth bynnag amdani hi. Roeddwn i'n awydd ei goleuo hi o'r fangre cyn belled ag yr oedd modd.

'Aros,' meddai hi, 'paid a mynd. Fu mi erioed mor rhydd yng nghwmni neb o'r blaen.' A gorchfygwyd finnau gan y trydan cryfaf.

Dilyna hi ymhellach i'r coed a

dechreuodd gael hwyl yn chwarae gêm newydd sbon. Gollyngodd ergydion i'r awyr i ddenu McIntosh, gan guddio yn y coed a disgwyl iddo fynd heibio, cyn dianc i rhywle arall i nwued yr un peth eto.

'Wn i ddim am ba hyd y buasai'r diddanwch yma wedi parhau, oni bai i ni glywed y Sgweiar ei hun yn dod drwy'r coed gan weiddi fel tarw gwyllt...

'McIntosh... what the devil's going on man?'

'Poachers, me Lord. Dozens o' 'em by the sound.'

'I be' wyt ti'n sefyll yn y fan yna fel heblas Dos ar eu hola nhw!'

'Vera good me Lord,' meddai hwnnw.

Aeth y chwarae yn rhy hawdd a diflas yn y diwedd. Gadawsom y ddau yn llonydd a cherdded yn araf i gyfeiriad arall. Eisteddasom wrth fôn coeden ac yno y buom am amser maith nes i'r lleuad ddechrau syrthio i Fôr Matholwch, a chynnwys y botel rum wedi mynd yn isel. Cusanais Miss Daphne a meddyliais fy mod wedi agor potel arall.

Daeth awr y gwarchod a'r hud a'r dadlennu, a dechreuodd Daphne arllwys cynnwys ei basged heb i neb ei holi.

Deallais nad oedd hi'n caru Mr Gordon Pound a oedd, meddai hi, erbyn hynny wedi mynd yn ei ôl i Lundain heb hysbysu neb, ond trwy ei briodi gallai adfer ffortiwn colledig ei theulu. Ond doedd o ddim 'o'r gwaed' chwedl hithau. Rhyw greadur a wnaeth elw wrth werthu arfan dianghenraid ar ôl y rhyfel. Ar ôl tawelwch roedd ei chwestiwn yn un annisgwyl.

'Beth fasat ti'n neud yn fy lle i?' Yn fympwyol dywedai o ddiffyg dim gwell: 'Fy mhriodi i wrth gwrs.'

'Dyna fo,' meddai hi, 'ac fe ddihangwn i ffwrdd.'

O'r diwedd codasom a chychwyn tua thre; un i'w blas a'r llall i'w fwrthyn, ond daeth trannoeth â'i broblemau i'w ganlyn.

Yn gyntaf, roedd Mam yn methu dirnad sut yr oeddwn wedi gallu cael ffesant heb wn, ac yn awyddus i wybod lle yr oeddwn wedi bod tan dri o'r gloch y bore. Yn ail, cefais wŷs i weld y Sgweiar.

Wrth ddringo'r grisau cerrig dychmygwn y gwaethaf — y sac, dim arian, Mam yn gorfod mynd o'r

bwthyn i Dduw a wyddai ble. Ond sut y gwyddai'r dyn am ddigwyddiadau'r noson cynt? Doedd ond un modd — roedd y gnawes hogan wedi fy mradychu.

Roedd y Sgweiar wrth ei ddesg a mwg sigâr yn codi o'i ddwrn. Sychodd ei fwstas a gorchmynnodd i mi eistedd. Ond dewis sefyll i glywed y gwaethaf wnes i. Heb ragymadrodd dechreuodd ar hanes y noson cynt.

'Lle'r oeddad ti?' gofynnodd, a dyma fi'n penderfynnu gwadu i'r pen draw.

'Cawsom helbul,' meddai wedyn, heb ddisgwyl ateb. 'Roedd yna ddwsinnau o botsiars yn y Parc yn meddi'r adar. Glywaist ti rhywbeth?'

'Dim,' meddwn innau. 'Roeddwn i yn y pentra.'

'O felly. Yn awr 'rwyf wedi taro ar gynllun i roi pen ar y lol yma unwaith ac am byth.'

'O,' meddwn o ddiffyg gallu dweud dim arall.

'Mae Mac yn dechrau mynd ar ei hen sodlau. Dim gwynt i redeg. Rwyf awydd cael rhywun ieuengach i'w helpu.'

'O iawn, eithaf peth,' meddwn innau mewn syndod.

'Ie,' meddai dan sipian ei sigâr, 'ac yr oeddwn yn meddwl y buasai gen ti ddiddordeb yn y gwaith, rwyf ti'n gallu saethu debyg?'

'Mi fedraf ddysgu.'

'Chweugain yr wythnos yn fwy yn dy gyflog. Bwthyn i ti dy hun rhag ofn i ti gael gafael ar golomen wen rhyw ddiwrnod. Wnei di ddim byw hefo dy fam am byth debyg?'

Na wna, meddyliais. Rwyf wedi addo dianc i ffwrdd hefo'ch nith. Ac yr oeddwn yn falch o ollwng fy hun i'r gadair o'r diwedd.

'I-iawn,' meddwn o'r diwedd. 'Mi gymera i'r swydd.'

'Dyna chdi,' meddai'r Sgweiar. 'Dos yn ôl at dy waith am ddiwrnod neu ddau i mi gael gair hefo McIntosh. Mi fyddi yn iawn hefo fo.'

'Byddaf. Diolch yn fawr syr.' Ac allan â mi.

Ond i bwy yr oeddwn i'n mynd i gadw f'addewid erbyn hyn, i'r hen ddyn ynteu ei nith. Ni fu rhaid i mi ddyfalu yn hir. Gwelais Miss Daphne yn croesi'r lawnt ar frys. Roedd ganddi sprigyn o wermod yn ei llaw.

'Helô,' meddwn i. 'Mynd i wneud diod wyt ti ar ôl neithiwr?'

Taflodd y planhigyn ataf a'i holl nerth gan ddweud un gair yn unig.

'Bradwr.' Diflannodd ac ni welais hi wedyn.

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Diolch: Dymuna Jennie a Wil Hughes, Bryn Parc, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu a ffrindiau oll am y llu cardiau, anrhegion a blodau, dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur. Diolch yn fawr iawn.

Cymdeithas y Chwirydd: Nos lau, Ebrill 7fed, croesawyd aelodau Cymdeithas Chwirydd Eglwys M.C. Brynrefail i gyfarfod cyntaf tymor 1994 gan y llywydd, Miss Lowri Prys Roberts. Arweiniwyd yn y defosiwn gan y llywydd ar y thema 'Gwasanaethu Eraill'. Y wraig wadd am y noson oedd Mrs Nansi Jones, Llanberis, a rhoddodd adroddiad cryno a diddorol o'i phrofiadau fel athrawes mewn nifer o ysgolion ond yn bennaf fel prifathrawes yn Lerpwl am ddeunaw mlynedd. Diolchwyd iddi gan y llywydd a Mrs Betty Owen. Trefnwyd y baned gan Mrs Jennie Hughes a Mrs Verna Jones. Roedd y Gymdeithas yn falch o groesawu Mrs Heddwen Roberts (gynt o Gwm-y-glo) i'r cyfarfod tra'n aros ar ei gwyliau ym Meillionen; a llongyfarch dwy o'r aelodau ar ddathliadau arbennig — Mrs Betty Owen ar achlysur priodas rhuddem a Mrs Jennie Hughes ar ddathlu priodas aur.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos lau, Mai 5ed, pryd y disgwylir Mr W. P. Williams, Bethel, i roi sgwrs.

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac ar hyn o bryd wedi dychwelyd gartref. Brysiwch wella.

Sefydliad y Merched: Cafwyd cyfarfod o'r gangen yn y festri, nos Lun, Ebrill 18fed, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Roedd aelodau Sefydliad y Merched Menai yn bresennol yn y cyfarfod. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Mr Rolant Wynne, Llanrug, a oedd wedi trefnu cwis ar gyfer y ddwy gangen. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Eleanor Williams, Mrs Carol Houston, Mrs Jean Davies, Mrs Mair Jones a Mrs Myfi Roberts. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones, gan un o aelodau cangen Menai.

Nos Fercher, Ebrill 27ain, bydd yr aelodau yn westeion i gangen Llanberis ac ar Ebrill 28ain bydd cynrychiolaeth yn ymweld â'r Cyngor Gwanwyn ym Methesda.

Cynhelir cyfarfod nesaf y sefydliad nos Lun, Mai 20fed, pryd y trafodir yr argymhellion ar gyfer y Cyfarfod Blyneddol a fydd yn cyfarfod yn Birmingham.

**MODURDY
PLAS
BACH
CAEATHRO**
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN
PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30
Ffôn: Llanberis
870922

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

DRAENOG



YMDDIHEURIAD

Ydach chi'n cofio'r stori y mis diwethaf am y siopwr yn mynd ar goll yn Harrods? Yr oedd yna wraig fonheddig o Lanberis efo fo ar y pryd, ac aeth hithau ar goll yn y siop fawr. Clywais ei bod wedi cymryd ati yn arw nad oedd sôn amdani hi yn y stori. Ymddiheura'r DRAENOG i Mrs Morris am beidio bod yn ddigon pigog!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau:

— Bethan Fôn ar ennill nifer o wobrau yng Ngŵyl Caer yn ddiweddar. Enillodd y wobwr gyntaf a chwpan am ddarlenn yn gyhoedus, anrhydedd am lefaru ac am ddarlenn o'r Ysgrythur yn Saesneg. Mae Bethan hefyd wedi pasio arholiadau gradd 3 gydag anrhydedd gyda'r delyn yn ddiweddar.

— Geraint Owen, Cefn Ffrwd, ar ei lwyddiant gydag anrhydedd yn ei arholiad cerdd yn ddiweddar. Mae Geraint yn ddisgybl i Sioned Owen, Cefn Cynrig.

— Timau pêl-droed 5-bob-ochr a phêl-rwyd a fu yn cynrychioli Ysgolion Sul y pentref mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan y Cyngor Ysgolion Sul ac a gynhaliwyd yn Neuadd Chwaraeon Coleg y Brifysgol ym Mangor. Bodd ym ymyl y lan fu hanes tri o'r timau ond gwnaethant yn dda iawn yn cyrraedd y gemau derfynol yn safon, sef y timau pêl-droed a phêl-rwyd dan 11 oed y cyfeiriwyd atynt yn rhifyn diwethaf yr Eco a'r tîm pêl-droed dan 14 oed gyda Dewi, Gerallt, Meilir, Dylan Llŷr ac Irfon.

Yn y gystadleuaeth pêl-rwyd dan 14 oed tîm Bethel, gyda Bethan a Lowri, Llinos Mair, Eleri, Ellen, Caryl, Anest, Catrin Delyth a Laura enillodd y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Clwb 200 Y Neuadd Goffa: Enillwyr gwobrau y Clwb 200 am fis Mawrth oedd — £20: Mrs Gwyneth Jones, Fachell (72); £10: Miss Margaret Jones, Cefn (10); £5 yr un i: Mr Emlyn Hughes, Bethlyn (58); Miss Ceridwen Evans, Parciau Rhos (195); Mr Goronwy Owen, 18 Cremlyn (35); Mrs Susan Owen, Llys Gwynedd (147); Mr Clifford Hughes, Llidiart-y-coed (134); Mrs M. B. Garnett, 1 Rhos Alun (19); Mr John Williams, 15 Y Ddôl (125); Miss Annie L. Humphreys, Ty'n Rhos (149).

Clwb 100 Yr Ysgol: Enillwyr gwobrau mis Ebrill oedd — £20: Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail; £15: Mrs e. Pierce, Pen-y-groes; £10: Mrs Mona Williams, Bro Rhos; £5: David a Maureen Roberts, Aden, Pontrug; £3: John Williams, Tyddyn Difyr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaethau'r mis: Yn ystod mis Mai bydd gwasanaethau'r Cysegr fel a ganlyn:

1: Gwasanaeth yn y bore gyda'r Gymanfa yng Nghapel Coch, Llanberis am 2 a 6 o'r gloch. Ni chynhelir yr Ysgol Sul am 10.

8: 10.00 Mrs G. A. Williams;
5.30 Mr John Owen

15: 10.00 Parchg Alan W. Roberts;
5.30 Gwasanaeth

22: Gweinidog

29: Mr Tudwal Jones-Humphreys

Y Cylch Meithrin: Yn ddiweddar derbyniodd y Cylch rodd o £50 gan Glwb Snwcer Bethel. Hoffai'r pwyllgor ddiolch iddynt am eu haelioni

Mae'r Cylch ar hyn o bryd yn derbyn enwau plant sydd am fynychu'r Ysgol Feithrin yn y flwyddyn addysgol Medi 94 hyd Gorffennaf 95. Am fwy o fanylion ymwelwch â'r Cylch neu ffoniwch lola Jons ar 670898.

Yn ystod gwyliau'r Pasg bu rhai o'r tadau — ac un taid go egniol — yn brys yn paratoid lleoliad chwarae wrth ochr y caban. Mae'r plant a'r athrawon yn edrych ymlaen am dywydd braf i gael defnyddio'r llecyn yn ystod y misoedd nesaf. Diolch iddynt i gyd am roi o'u hamser prin i gynorthwyo gyda'r gwaith.

Ar fore Sadwrn, Ebrill 16, cynhaliwyd Paned a Chân pryd y daeth nifer helaeth o bobl a phlant i'r Neuadd Goffa i wrando ar blant y Cylch yn canu rhai o'u hoff ganeuon. Braf oedd gweld criw da o blant yn sefyll yn haderus o flaen cynulleidf. ac yn canu gasgliad o ganeuon. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi. Bu'n fore llwyddiannus iawn a gwnaed elw o tua £150 i'r Cylch. Enillwyr y raffl oedd: 1, Maldwyn Hughes, Bro Rhos; 2, Sasha Williams a Iona Spake; 3, Mrs Thomas, Dinas, Llanwnda; 4, Non Rowlands, Y Ddôl. Dyfalu pwysau'r gacen: Nerys John, Y Felinheli.

'Taith Owain Glyndŵr': Ar Fai 14eg bydd Mr Seiriol Owen o Fethel yn cerdded 123 o filltiroedd. Bydd yn cychwyn yn Nhref-fyco gan alw mewn nifer o drefi a phentrefi ar ei ffordd lleoedd fel Llanidloes, Aberhosan, Llangadfan, Dolanog, gan ddiweddu yn Hope ar Fai 22ain. Fe'i'n oddir ar gyfer y daith ac mae Mr Owen am roi yr arian i'r Cylch Meithrin. Os dymunwch gyfrannu mae yna ffurflenni noddi gan blant ac athrawon y Cylch Meithrin. Pob lwc iddo ar ei daith hir a gobeithiwn na



Chwaraewyr dan 10 oed Bethel a tîm y Bohemians o Ddilyn.

fydd yn rhy flinedig.

Gêm Rhyngwladol: Denwyd torf sylweddol i Gae Top, Bethel, yn ddiweddar i wyllo gêm bêl-droed arbennig iawn. Roedd y tim o dan 10 oed lleol yn croesawu carfan o dan 10 oed Clwb Pêl-droed Bohemians, Dilyn. Y mae'r 'Bo's' yn un o brif dimau Cynghrair Iwerddon, ac ar eu maes hwy ym Mharc Dalymount yr arferid chwarae gemau rhyngwladol. Yr oedd yn gêm gystadleuol iawn — yn wir roedd yn rhaid dangos y cerdyn melyn i dawelu'r dyfroedd. Roedd y Gwyddelod yn ymweld â gwersyll Butlins ac wedi iddynt chwarae ym Methel roeddynt yn teithio i wyllo Wrecsam ar y Cae Ras. Gêm gyfartal 1-1 a gafwyd, gyda'r Gwyddelod yn sgorio eu gôl gyda chic olaf y gêm. Cyflwynwyd tlws i'r Gwyddelod ar ran Clwb Bethel i nodi'r achlysur. Cyflwynwyd tlws i Owain Siôn fel prif chwaraewr y gêm. Yr oedd rhieni a swyddogion y 'Bohemians' am inni nodi eu gwerthfawrogiad o groeso parod tîm Bethel.

Merched y Wawr: Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn Neuadd yr Ysgol o dan lywyddiaeth Eirlys Williams. Llongyfarchwyd Deilwen Hughes ar enedigedd merch fach, Manon. Dymunwyd yn dda i Dewi, mab Glenys Griffiths, yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Meirionnydd.

Da oedd gweld Sheila Roberts yn ôl yn ein plith wedi cyfnod o anhwylder. Y wraig wadd oedd Gwenan Roberts, Bethel, sydd yn gweithio fel Therapïdd llefarydd yng Ngwynedd. Cafwyd noson arbennig o dda yn ei chwmni, wrth iddi sôn am ei chyfnod yn yr India gyda phlant dan anfantais. Drwy gyfrwng sleidiau gwelwyd tipyn o fywyd bob

dydd yn Calcutta. Diolchwyr iddi gan Gwyneth Jones. Enillydd y raffl oedd Sheila Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Mai 11, yng nghwmni Judith a Heulwen.

Yr Urdd: Y gweitharedd nesaf yn enw'r Urdd fydd y Mabolgampau Cylch. Cynhelir rhain ar gaeau Ysgol Syr Hugh Owen ar nos Lun, Mai 16. Caiff yr aelodau wybodaeth bellach drwy'r Ysgol.

Yr Ysgol: Yn ddiweddar bu deuddeg o ddisgyblion blwyddyn 6 yng Ngelli Gyffwrdd am y prynhawn yn ffilmio eitem ar gyfer rhaglen plant 'Uned 5'. Darlledwyd yr eitem pnaun dydd iau, Mawrth 31, a'r plant yn perfformio'n broffesiynol iawn.

Prynawn dydd Mercher, Ebrill 20fed, daeth myfyrwyr drama y Coleg Normal ar eu hymwelid olaf am y tro i'r Ysgol. Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu'r myfyrwyr, ynghyd â'u darlithydd, Miss Jini Owen, yn ymarfer eu sgiliau hefo plant dosbarth Miss L. P. Roberts a Mr E. Watkins. Mae'n sicr fod y myfyrwyr wedi elwa o'u profiad a hefyd y plant, o'u hymateb, wedi mwynhau eu hunain.

Dydd Gwener, Ebrill 22ain, bu Cwmni'r Frân Wen a'u sioe yn diddanu plant Mrs S. Jones a Miss Bethan Evans.

Mae 40 o blant hyn yr Ysgol sy'n aelodau o'r côr yn brys iawn yn ymarfer y sioe gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid' o dan hyfforddiant Miss L. P. Roberts. Perfformir yn Theatr Seilo o nos Lun i nos Fercher, Mehefin 20-22. Cofiwch archebu eich tocynnau am y noson o'ch dewis mor fuan â phosibl drwy'r Ysgol.

DRAENOG



Glywsoch chi am y cyn-longwr o Fethel a gloiodd ei hun allan o'r tŷ yn ddiweddar?

Daeth ei brofiad fel dringwr polion a peilons trydan yn hwylus iddo pan gafodd fenthg ysgol i ddringo i mewn i'r tŷ.

Ond! Nid oedd ei annwyl wraig yn rhy hapus pan dorrodd o bot blodau wrth iddo ddringo i mewn trwy'r ffenestr y lloft. Ie, 'gone through pot' nid 'gone to pot' oedd ei hanes! Mae'n awr yn chwilio am fenthg siwpyr glŵ ym mhobman.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn fel ardal â Mrs Delyth Hughes, gynt o Nant Peris, wedi iddi golli ei brawd, Mr Gareth Williams, yn Macclesfield. **Ffarwelio:** Ym mis Ebrill fe ffarwelion â Gwen a Brian Walsh, Elidir, ar ôl blwyddyn hanner yn y Nant. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Llanberis. **Diolch:** Dymuna Alan Pritchard, Llys Awel, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar. **Ysgol Sul:** Bydd yr Ysgol Sul yn cael ei hail-ddechrau yng Nghapel Rehoboth o ddiwedd mis Ebrill ymlaen. Y bwriad yw cynnal yr Ysgol Sul yn y festr tra bydd yr oedfa yn cael ei chynnal yn y capel ar bawn Sul. Fe gaiff y plant ddod i'r Capel i ran gyntaf yr oedfa cyn mynd drwodd i'r festri i'r Ysgol Sul. Mae croeso i holl blant y Nant i'r Ysgol Sul, a gobeithiwn weld y gwaith yn llwyddo.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047



GWÊL Y
LLYN

Lake View
Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Canu'r Piano: Llongyfarchiadau i Geraint Roberts, Cefn Rhos Isaf, ar ei lwyddiant gydag anrhydedd yn arholiad gradd 1 piano (theori) Coleg Llundain. Da iawn ti, Geraint. **Arholiad arall:** Llongyfarchiadau hefyd i Jacqueline Evans, Tafarn Bryngwna, am gymwysio fel bydwraig yn ddiweddar. y mae ganddi restr hir o lythrennau ar ôl ei henw erbyn rŵan! **Pêl-droed:** Wedi llwyddiant cenedlaethol tîm pêl-droed Waunfawr bydd yn rhaid i hogia Caeathro edrych ar ôl eu hunain yn well o hyn ymlaen. **Ymdeoliad:** Deallwn fod Dr Trefor

Owen wedi ymdeol fel meddyg teulu yng Nghaernarfon. 'Does dim disgwyl y bydd o'n segura, fodd bynnag. Mae o wedi dechrau'n dda trwy fynd ar daith pedair wythnos i fynyddoedd yr Himalaya!

Y Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mai —

1: Dim gwasanaeth. Cymanfa Ganu'r fro.

8: Gweinidog am 10.

13: Y Parchg Gareth Alban

22: (Pentecost) Dafydd Iwan am 10.

29: Parchg H. Parry Jones am 2.

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa pwyllgor y Cae Chwarae ar gyfer mis Ebrill oedd — £40: Einir Wyn, 3 Erw Wen (63); £25: Bob a Jini Owen, 1 Erw Wen (8); £15: Yvonne Jones, 5 Tai Bryngwna (37). Croesewir aelodau newydd — trigolion hen a newydd y fro. Dylid cysylltu â Clive James, Hafan, neu aelod arall o'r pwyllgor.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION

Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej


Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CROESAIR MAI




AR DRAWS

- 1. Gan Dan a Cati yn unig mae'r hawl i drwyddedu (8)
- 5. Mae'n swinio fel petai'n efelychu pobol 'efo gwallt pinc â modrwy yn eu trwynau wrth ganu! (6)
- 9. Cyfrif o'r enillion, y costau a'r treuliau (8)
- 10. 6 i lawr arall (6)
- 12. Triniaeth tir (9)
- 13. Yr hyn sy'n fy hysbysu fod yr haul wedi codi (5)
- 14. Peli disgynyddion? (4)
- 16. Yma y daeth helyntion Davy Crockett i ben (2,5)
- 19. Cymryd fel patrwm (7)
- 21. Gall grym fod yn wych! (4)
- 24. Amcanion (5)
- 25. Cenfignus a gwenwynllyd (9)
- 27. Yn wastad pob ffordd gyda phedol yn dilyn (6)
- 28. Nid yw'n bechadur am nad yw'n mynd i'r capel ar y Sul! (8)
- 29. Chwerthin am ben aelod o'r côr am ei fod yn gwneud gormod o swm, a hynny heb ddechrau rihysio! (6)
- 30. Yr hyn a wnaeth Guto ers talwm, ond methu wnaeth Sam! (5,3)

I LAWYR

- 1. Ffôs ddwr rhwng Lerpwl a Manceinion (6)
- 2. Papur newydd Cymraeg gogledd America (6)
- 3. Mae'r gwirion yn rhyfeddod ar ôl colli chwarter ei frên (5)
- 4. Mae'n danbaid yng ngardd Leo (7)
- 6. Clerigwr gwybodys (9)
- 7. Rhaid cyfri'r unedau hyn rhag mynd yn dew (8)
- 8. Fe'i rhoir trwy aberthu (8)
- 11. Ai i hwn y codwyd eglwys yn St. Asaph? (4)
- 15. Yr hyn a ddylech ei wneud o flaen eich gwell! (5,4)
- 17. Astudiaeth wyddonol o'r celfyddydau ymarferol neu ddiwydiannol (8)
- 18. Pwyll o Ddyfed? (8)
- 20. Hen ddymuniad yn denu'n ôl (4)
- 21. 'Roedd rhai Myddfai, sef Rhiwallon a'i feibion, yn enwog iawn yn eu dydd (7)
- 22. Hen geffyl (6)
- 23. Un gwyth ei blu o wastadeddau anial Affrica (6)
- 26. Hen weiddi gan y bobol fawr ar ôl treiglo (5)

ATEBION CROESAIR EBRILL



Ymgais Iris Williams, Caerbleddyn, Penisarwaun, ddaeth allan o'r het ac ynddi nifer dda o atebion cywir y mis hwn, ac iddi hi yr anfonir y wobr o £5.

Ymhlith y cynigion anghywir, unwaith eto, un di-enw o Gaernarfon!!

Atebion croesair mis Mai — wedi eu cwblhau ac enw'r ymgeiswyr — i law Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Mai 16, os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

MIS MAI

- Sul** 1 **LLANBERIS:** Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn yng Nghapel Coch am 2 a 6 o'r gloch.
- Mawrth** 3 **CAERNARFON:** Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd.
- Mercher** 4 **LLANRUG:** Tombola yn yr Ysgol Gynradd am 7 o'r gloch.
PENISARWAUN: Cadw'n Heini am 8.30 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned.
- Iau** 5 **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd. Sgwrs gan W. P. Williams.
- Llun** 9 **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau.
DEINIOLEN: Cyngor Eglwys. Cyfarfod yng Nghefnywaun.
- Mawrth** 10 **LLANRUG:** Merched y Wawr — Cyfarfod Blynnyddol.
- Mercher** 11 **BETHEL:** Merched y Wawr — Cyfarfod gyda Judith a Helen.
LLANRUG: Plaid Cymru — Helfa Drysor.
- Sul** 15 **DEINIOLEN:** Gŵyl Gorawl Eryri yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Cyfarfod y plant am 2. Cymanfa am 7 o'r gloch gyda Chantorion Elidir.
- Llun** 16 **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — Noson yng nghwmni Mrs G. Davies, Bethesda.
- Llun** 20 **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.

RHODDION

- £10.00**
Mr J. C. Williams, Bodfair, Llanrug; Mr R. Gwynn Davies, Waunfawr; Teulu Annie Elizabeth Williams, Tŷ Newydd, Bethel; Mr a Mrs Gwilym Hughes, Bryn Parc, Brynrefail.
- £5.50**
Mrs G. McCarthy, Childwall, Lerpwl.
- £5.00**
Teulu Meillionydd, Penisarwaun; Mr a Mrs Dafydd Lloyd Jones, 15 Stryd William, Caernarfon; Aled a Linda, Deinolen; Ms Eluned Rowlands, 9 Stryd Turner, Llanberis; Mr Brian Wakeham, Llanberis; Mr a Mrs O. Jones, Llangefni; Mr a Mrs J. E. Williams, Bishop Auckland.
- £3.50**
Mrs J. C. Williams, Bod Fair; Mrs H. T. Owen, Caerdydd; Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Mr Meurig Owen, Lewisham; Mr P. W. Williams, Corby; Mrs Helen M. Francis, Caer; Mr Alun Williams, Waunfawr; Miss J. Williams, Llangefni; Mrs Lena P. Lee, Morfa Bychan; Miss Helen Evans, Munro; Miss M. Griffith, Caerhun, Bangor; Mr E. C. Rowlands, South Wirral.
- £3.00**
Mrs A. Williams, Ystrad, Llanrug; Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Di-enw, Llanberis.
- £2.50**
Di-enw
- £2.00**
Mr a Mrs Gwilym Davies, 10 Bro Elidir, Dinorwig; Delyth a Selyf, Tandderwen, Frongoch, Llanberis; Mrs Clara Roberts, Anfield, Llanberis; Teulu Cae Gwyddel, Brynrefail.

BETWS GARMON

Diolch: Dymuna David Lona Williams, Brynsiencyn (Parc), ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Talwrn. Hefyd mae Eurwyn a Pearl yn ddiolchgar am y cardiau a dderbyniasant hwythau ar yr achlysur o ddod yn Nain a Thaid. Llongyfarchiadau i Sara ar fod yn fodryb.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Linda Morris
GWASANAETH TRIN GWALLT
YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf
LLANRUG. Ffôn: 678857

CHWARAEON

Y CWPAN IAU YN DOD ADREF

1934-35, 1935-36, 1963-64, 1964-65: LLANBERIS.
1977-78, 1978-79: LLANRUG.
1993-94: DEINIOLEN

Am y tro cyntaf ers 1979 mae'r Cwpan Iau wedi ei hennill gan dîm o Gynghrair Arfon. O gofio safon y timau y bu'n rhaid i Ddeiniolen eu curo i gyrraedd y rownd derfynol mae codi'r tlws eleni yn hollol haeddiannol.

Ar faes caled Bae Colwyn cafwyd gêm gystadleuol iawn yn erbyn Llansannan. Braff oedd gweld bod torf sylweddol wedi dod i wyllo'r gêm. Mae'n sicr bod rhagor yn gwylio'r gêm hon nag oedd yn gwylio yr un gêm yn y Konica ar yr un diwrnod. Yr oedd y ddau dîm wedi dod ag ambell i seren i'w cefnogi. Roedd Malcolm Allen wedi dod i lawr o Newcastle ar gyfer diwrnod mwyaf Deiniolen ers hydoedd. Yn 'gweiddi' dros Llansannan roedd yr hen El Bandito ei hun. Yr oedd nifer wedi nodi mor braff oedd Cymreigrwydd y ddau dîm, a'r awyrgylch braff oedd yn bodoli rhyngddynt.

GWIL GOLI

Yr oedd y fuddugoliaeth yn arbennig i Gwilym Williams yng ngôl Deiniolen — wedi blynyddoedd o gynrychioli nifer o dimau Arfon ar wahanol lefelau — dyma'r tro cyntaf iddo godi'r tlws pwysig yma. Yn sicr mae yn goron ar ei yrfa (mae yna si ei fod yn meddwl ymddeol ar ddiwedd y tymor) a rhaid edrych yn ôl ar ei berfformiad anhygoel yn y 'frwydr' yng Ngwalchmai. Dilwyn Morris sgoriodd y gôl gyntaf allweddol ym Mae Colwyn, ac yna Dewi Williams — yr arian byw o asgellwr (Kauchelskis Cynghrair Sain?) yn selio'r fuddugoliaeth.

RHAGOR I DDOD

Y cwestiwn mawr ar hyn o bryd yw ai hyn yw'r cyntaf o nifer o dlysau i'r Clwb eleni. Mae'r tîm yn dal ym mhob un o gystadlaethau cwpan y gynghrair — ond beth am y gynghrair ei hun? Gyda phedair gêm ar ôl (wrth i'r Eco fynd i'w wely) mae clwb Boro Caernarfon ddau bwynt ar y blaen. Gyda thri phwynt am fuddugoliaeth, mae'r tlws yn y fantol o hyd. Gall y

gêm 'leol' rhwng dau dîm Caernarfon fod yn hynod o dyngedfenol.

Y RHEOLWR

Y mae llawer gwahanol elfen yn cyfrannu at lwyddiant clwb — chwaraewyr, pwyllgor, rheolwr, a theimlad cymunedol. Mae'r rheiny yn amlwg yn Neiniolen. Rhaid unwaith eto nodi cyfraniad mawr John Williams, y rheolwr. Mae o wedi meithrin tîm profiadol iawn ac wedi llwyddo i gynnal brwdfrydedd ambell chwaraewr sydd wedi bod yn chwarae pêl-droed ers blynyddoedd lawer bellach. Mae'r chwaraewyr yn amlwg yn ymateb i arweiniad John. Gobeithio y bydd yn aros wrth y llyw ac yn arwain y tîm i Gynghrair Gwynedd, ac y bydd cael y maes newydd yn rhoi cychwyn i rediad llwyddiannus. o edrych ar yr ystadegau ar ddechrau'r erthygl sylwaf bod Llanberis a Llanrug wedi ennill y Cwpan Iau ddwy flynedd yn olynol. Mae'r her yno felly i Ddeiniolen i efelychu'r ddau frawd 'mawr'.

CANMLWYDDIANT

Bydd un peth unigryw yn aros gyda Clwb Deiniolen — y tymor yma yw canmlwyddiant Cymdeithas Bêl-droed Arfordir Gogledd Cymru ac i nodi'r achlysur mae holl enillwyr tlysau'r Gymdeithas eleni yn cael plac i nodi'r achlysur. Pwy fydd yma 'mhen canmlwyddiant tybed?

... A DA IAWN, RICHARD

Ers dechrau'r tymor mae Golygydd Chwaraeon yr Eco wedi bod yn darogan y byddai Deiniolen yn cipio y Gwpan Iau eleni. Gwnaeth hynny mewn 6 o'r 8 rhifyn a gyhoeddwyd ers Medi!! Dyna be' ydi cefnogwr pybyr—Gol.

'Gwil, gobeithio bydd dy law wedi gwella i godi'r Cwpan Iau . . .'

(Eco'r Wyddfa, Rhagfyr 1993)



BEIRNIADAETH Y GYSTADLEUAETH

Cafwyd chwe ymgais gydag enwau ynghlwm â hwy, ac un di-enw! Yr oedd yr un di-enw yn cynnwys rhai enwau nad oedd ar y rhestr wreiddiol! Rwy'n ymwybodol fod nifer ohonoch yn teimlo y dylai rhai enwau ychwanegol fod wedi eu cynnwys, ac efallai rhai enwau na ddylai fod wedi eu cynnwys ar y rhestr. Rhaid ymddiheuro i ambell unigolyn gan fod ambell un wedi ei adael allan oherwydd camddealltwriaeth.

Gan mai chwe ymgeisydd ddaeth i law fe benderfynodd y panel dewis edrych ar y chwe ymgais gan benderfynu pa un o'r chwe tîm oedd yr un gyda'r cydbwysedd gorau. Yn sicr mae wedi profi mai gwaith anodd iawn yw dewis tîm. Cafwyd chwe 'tîm' gwahanol. Rhaid cofio hefyd, wrth gwrs, fod pawb yn arbenigwyr ar bêl-droed.

Ym marn y panel, ymgais Eurwyn Thomas, 9 Stryd y Ffynnon, Llanberis, oedd yn dod i'r brig.

Dyma ei ddewis:

GWILYM WILLIAMS
EIFION JONES
GLYN GRIFFITH (C)
COLIN SAYNOR
WAYNE PHILIPS
PETER ROBERTS
PERCY ALLEN
GERAINT WILLIAMS
GWILYM WILLIAMS
MALCOLM ALLEN
EMLYN ROBERTS


Penderfynwyd rhoddi yr ail docyn yn wobr i Margaret Williams, Bryn, Cwm-y-glo, am ei hymgais hi. Dyma'i chynnig hi:

GWILYM WILLIAMS (wrth gwrs!!)
WAYNE PHILIPS
HOWYN JONES (C)
DAVID PHILIPS
GLYN GRIFFITHS
PERCY ALLEN
GERAINT WILLIAMS
SELWYN ALLSUP
MALCOLM ALLEN
EMLYN ROBERTS
MARC LLOYD WILLIAMS



Margaret Williams a'i thocyn.

Ar ran yr Eco, hoffwn ddiolch i Trevor Lloyd Hughes un o gynrychiolwyr y gogledd ar yr FA am ei gydweithrediad yn cael y tocynnau. Maent yn docynnau gwyh — yng nghanol y brif eistedd ar y Cae Ras. Gobeithio bod y ddau 'brif ddewiswyr' wedi mwynhau y gêm, er gwaetha'r ffaith mai colli o 2 gôl i O wnaeth Cymru.



Eurwyn a'i docyn.



Llanberis — enillwyr 1964-65



Llanrug — enillwyr 1978-79